Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 19eg Rhagfyr, 2023 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac yn rhithiol drwy Zoom |
| **PWYNT CYSWLLT** | Rhodri Jones<br><br>01286 679256 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig Siencyn | Arweinydd y Cyngor |
| Nia Wyn Jeffreys | Dirprwy Arweinydd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Beca Brown | Aelod Cabinet Addysg |
| Berwyn Parry Jones | Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Elin Walker Jones | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Menna Trenholme | Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 28 TACHWEDD 2023 | | | 3 - 13 |
| 6 | GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (GDMC) CAERNARFON, PWLLHELI A CRICIETH | Cyng. Dilwyn Morgan | Daron Marged Owens: Uwch Swyddog Gweithredol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol | 14 - 39 |
| 7 | CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/23 CYNGOR GWYNEDD | Cyng. Dyfrig Siencyn | Dafydd Gibbard: Prif Weithredwr | 40 - 67 |
| 8 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET AMGYLCHEDD | Cyng. Dafydd Meurig | Dafydd Wyn Williams: Pennaeth Adran Amgylchedd | 68 - 74 |
| 9 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC | Cyng. Berwyn Parry Jones | Steffan Jones: Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | 75 - 85 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 28 TACHWEDD 2023**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Nia Jeffreys, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Dafydd Meurig, Elin Walker Jones, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas a Menna Trenholme.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Aeron Morgan (Pennaeth Cyllid) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

| | |
|---|---|
| Eitem 6: | Eurig Huw Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Delyth Gadlys Williams (Ymgynghorydd Cydraddoldeb). |
| Eitem 8: | Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd). |
| Eitem 9: | Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol Addysg: Gwasanaethau Corfforaethol) a Gwyn Tudur (Pennaeth Cynorthwyol Addysg: Uwchradd). |
| Eitem 10: | Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd). |
| Eitem 11: | Alun Gwilym Williams (Uwch Reolwr Busnes, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant). |

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Craig ab Iago.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Elin Walker Jones ar gyfer Eitem 9 gan ei bod yn lywodraethwr yn Ysgol Tryfan. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol gan y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones ar gyfer Eitem 9 gan eu bod yn lywodraethwyr yn Ysgol Brynrefail. Nid oeddent o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni fu iddynt adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Prif Weithredwr ar gyfer Eitem 9 gan fod cysylltiad teuluol yn fyfyriwr yn un o'r ysgolion a drafodwyd. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 07 Tachwedd 2023 fel rhai cywir.

## 6. DOGFEN YMGYNGHOROL AMCANION CYDRADDOLDEB 2024/28.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme.

**PENDERFYNIAD**

**Cytunwyd i ryddhau'r ddogfen ymgynghorol Amcanion Cydraddoldeb 2024-28 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â'r adroddiad.**

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd yr aelodau bod y ddogfen hon yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet bob pedair blynedd, yn unol â gofynion statudol i adolygu amcanion cydraddoldeb o dan Deddf Cydraddoldeb 2010. Cadarnhawyd bod ymgysylltu gyda'r cyhoedd wedi ei gyflawni rhwng Ebrill ac Awst 2023 ble cafwyd oddeutu 600 o ymatebion i holiadur barn. Eglurwyd mai pwrpas yr ymgynghoriad oedd cadarnhau os oedd y cyhoedd yn credu bod angen i'r amcanion a ddefnyddiwyd rhwng 2024-28 barhau ar gyfer 2024-28 neu a oedd angen eu diwygio.

Nodwyd bod swyddogion wedi bod yn ymweld â nifer o grwpiau a digwyddiadau er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys llais yr ifanc, pobl y gymuned LDHT+ a phobl anabl. Eglurwyd bod swyddogion wedi cael trafodaethau gyda rheolwyr o fewn y meysydd a oedd wedi codi, er mwyn derbyn cymorth i lunio'r amcanion. Defnyddiwyd y wybodaeth a dderbyniwyd gan ymatebwyr â phrofiad bywyd o nodweddion gwarchodedig er mwyn creu'r amcanion diwygiedig drafft.

Adroddwyd y defnyddiwyd data a gasglwyd gan dîm ymchwil a gwybodaeth y Cyngor ar gyfer dogfen a gomisiynwyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru i sicrhau dealltwriaeth o'r wybodaeth ar raddfa leol. Cadarnhawyd bod ystyriaeth wedi cael ei roi i ddyletswyddau gweithredu'r Llywodraeth ym meysydd Gwrth-hiliaeth a LHDT+ wrth lunio amcanion drafft.

Pwysleisiwyd mai amcanion drafft sydd wedi eu nodi yn y ddogfen ac y bydd modd i'r rhain cael eu diwygio yn dilyn ymgynghoriad pellach gyda'r cyhoedd. Sicrhawyd bod yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gyflwynwyd gyda'r ddogfen, yn un drafft, a byddai'n cael ei ddiwygio yn ôl yr angen pan fydd adborth bellach wedi eu casglu.

Cadarnhawyd mai'r pedwar amcan drafft cyn ymgynghori'n bellach yw:

1. Gwella amrywiaeth ein gweithlu a lleihau bylchau tâl

2. Gwella ein data am bobl â nodweddion cydraddoldeb
3. Sicrhau fod y Cyngor yn fudiad wrth-wahaniaethol trwy wella ein systemau mewnol er mwyn darparu gwell gwasanaethau i bawb
4. Gwella cydraddoldeb o fewn maes addysg

Diolchwyd i'r swyddogion am lunio amcanion siarp gan uno rhai amcanion blaenorol. Nodwyd bod hyn yn galluogi ystyried cydraddoldeb o fewn maes addysg fel amcan newydd. Teimlwyd bod hyn yn hollbwysig gan ei fod yn cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru ac addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Amlygwyd nad oedd capasiti ac ymrwymiad staff ac aelodau etholedig y Cyngor ym maes cydraddoldeb, yn ogystal â hyfforddiant perthnasol, wedi ei gynnwys yn y ddogfen hon, er ei fod yn amcan yn y gorffennol. Sicrhawyd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb bod hyfforddiant yn bwynt gweithredu o dan addewid i wneud Cyngor gwrth-wahaniaethol. Pwysleisiwyd bod llawer o waith wedi ei wneud ar y maes hwn yn barod ac felly mae wedi ei gynnwys fel pwynt gweithredu yn hytrach nag amcan. Nodwyd y byddai hyn yn cael ei amlygu o fewn y ddogfen.

Adroddwyd nad oedd materion yr iaith Gymraeg wedi ei nod i fel amcan o fewn y ddogfen. Cadarnhawyd bod hyn oherwydd nad yw'r iaith yn hil gan fod modd i unrhyw un ei dysgu. Er hyn, pwysleisiwyd bod yr iaith yn fater sy'n effeithio cydraddoldeb ac yn cael ei warchod o dan Ddeddf Iaith Gymraeg 1993. Nodwyd bod hybu pwysigrwydd yr iaith o fewn y Cyngor wedi cael ei nodi fel pwynt gweithredu o fewn y ddogfen.

Egluriwyd nad ydi materion economaidd cymdeithasol yn cael eu nodi fel carfan sydd wedi ymgynghori â hwy hyd yma wrth lunio amcanion. Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb bod dyletswydd economaidd gymdeithasol wedi ei fabwysiadu yng Nghymru ers 2021 ac o'r herwydd yn ystyriaeth bwysig wrth lunio amcanion. Sicrhawyd bydd cwestiwn penodol o fewn yr ymgynghoriad nesaf am faterion economaidd cymdeithasol. Esboniwyd bod perthynas agos rhwng materion cydraddoldeb â economaidd gymdeithasol a'i fod yn ystyriaeth bwysig iawn.

Eglurwyd bydd Cynllun Cydraddoldeb 2024-28 yn cael ei lunio gyda'r amcanion terfynol yn dilyn yr ymgynghoriad hwn ac fe fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet pan yn amserol.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU 2022/2023

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan

**PENDERFYNIAD**

**Nodwyd y gwaith a'r cynnydd a wnaed yn 2022/2023 yn y meysydd gwaith sy'n cael eu dwyn ymlaen yn rhanbarthol trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.**

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd yr Aelodau bod cyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ymhelaethwyd bod

sefydlu a chynnal y Bwrdd yn ofyniad o fewn Adran 9 y ddeddf honno yn ogystal â'r angen i hyrwyddo cydweithrediad gyda phartneriaid y Bwrdd.

Eglurwyd bod y bwrdd yn cael ei redeg gan y Tîm Cydweithio Rhanbarthol a'i lletyo gan Gyngor Sir Ddinbych. Diolchwyd i Mary Wimbury, Prif Weithredwr Fforwm Gofal Cymru am ei gwaith o gadeirio'r Bwrdd.

Tywyswyd drwy'r adroddiad gan dynnu sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Cadarnhawyd mai rôl y bwrdd yw cydweithio i sicrhau iechyd a lles pobl o bob oed yng Ngogledd Cymru.
- Darparwyd diagram o holl is-fyrddau'r Bwrdd sy'n sicrhau fod rôl y Bwrdd yn cael ei gyflawni.
- Nodwyd bod y 'Cynllun Ardal' ar gael ar wefan Cydweithredfa Gogledd Cymru sy'n dangos yr heriau a blaenoriaethau o fewn ardaloedd y Bwrdd, gan gynnwys Gwynedd.
- Cyfeiriwyd at ddwy gronfa ranbarthol gyfalaf newydd y bwrdd sy'n darparu arian i brosiectau pwysig iawn ar draws y rhanbarth. Cadarnhawyd mai'r cronfeydd hyn ydi 'Cronfa Tai â Gofal' a 'Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso'.
- Adroddwyd ar nifer o brosiectau o fewn maes plant a phobl ifanc megis anableddau dysgu, iechyd meddwl, blynyddoedd cynnar a phrosiect 'Dim Drws Anghywir'.
- Esboniwyd bod y bwrdd yn derbyn arian o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a sefydlwyd gan y Llywodraeth yn Ebrill 2022. Eglurwyd bod hwn yn Gronfa am gyfnod o 5 mlynedd.
- Darparwyd gwybodaeth am Aelodaeth y Bwrdd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector gyhoeddus, iechyd, defnyddwyr gwasanaethau a'r trydydd sector.
- Cyfeiriwyd at Gynllun Cyflawni Blynyddol y Bwrdd i ddarparu gwybodaeth am waith y Bwrdd i'r dyfodol

Cytunwyd i ddarparu cyflwyniad pellach i Aelodau'r Cabinet ar waith y Bwrdd.

Cydnabuwyd nad oedd strwythur llywodraethu clir ac eglur ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Cadarnhawyd bod y cylch gorchwyl yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac mae Is-fwrdd Plant a Phobl Ifanc yn blaenoriaethu'r gwaith hwn. Manylwyd nad yw aelodau etholedig yn rhan o'r is-fwrdd ac felly cadarnhawyd bod y Cyfarwyddwr Statudol wedi cysylltu gyda'r Llywodraeth i ystyried addasu aelodaeth.

Cadarnhawyd bod strwythur llywodraethu cymhleth y Bwrdd wedi ei ddarparu gan y Llywodraeth. Er hyn, cadarnhawyd bod gwaith y Bwrdd yn llwyddiannus iawn gan eu bod yn canolbwyntio ar lais defnyddwyr y gwasanaethau i ysgogi'r gwaith.

Diolchwyd i'r Bwrdd a'r holl swyddogion am eu gwaith.

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL RHIANT CORFFORAETHOL 2022-2023.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Elin Walker Jones

**PENDERFYNIAD**

**Derbyniwyd a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad sy'n adrodd ar waith y Panel Rhiant Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn 2022-23.**

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd yr aelodau bod gan Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid gyfrifoldeb i fod yn Rhiant Corfforaethol i bob plentyn o dan ofal y Cyngor, ac yn benodol i sicrhau gofal effeithiol, sefydlog, diogel ac addas ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal, ynghyd â'r rhai sy'n gadael gofal. Cywirwyd Adran 3.1 o'r blaenraglen i ategu hynny a nodwyd bod yr Adroddiad yn adrodd ar y gwaith sydd wedi ei gwblhau i sicrhau bod y Cyngor yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn.

Cadarnhawyd bod Cyngor Gwynedd yn cymryd y cyfrifoldeb hwn yn ddifrifol iawn a eglurwyd mai'r Prif Weithredwr yw Cadeirydd y Panel Rhiant Corfforaethol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr adroddiad hwn yn manylu ar y gwaith a gyflawnwyd rhwng Ebrill 2022 a Mawrth2023 ac yn nodi gwybodaeth gyfredol am niferoedd plant mewn gofal a'r gefnogaeth a roddir i'r plant hynny yn ogystal ag amlinellu'r bwriad ar gyfer y dyfodol.

Adroddwyd bod 25% o'r plant a ddaeth i ofal yn ystod y flwyddyn 2022-23 yn Geiswyr Lloched drwy Gynllun Trosglwyddo'r Swyddfa Gartref, gan i'r Cyngor dderbyn 15 o blant drwy'r cynllun.

Mynegwyd pryder am Gynllun Trosglwyddo'r Swyddfa Gartref gan nad yw'r plentyn yn cael ei roi'n ganolog i'w prosesau. Eglurwyd nad oes trafodaethau ymlaen llaw i ddiwallu anghenion y plentyn i'w asesu os ydi Gwynedd yn leoliad addas i'w anghenion. Cydnabuwyd ei fod yn heriol iawn canfod lleoliad addas ar gyfer y plant gan nad ydynt eisiau aros yng Ngwynedd yn aml iawn, ac yn dyheu am fynd i'r dinasoedd mawr. Eglurwyd bod modd gofalu am unigolion dros 16 mewn lleoliad llety a chefnogaeth, ond os yw'r plant o dan 16 oed mae'n rhaid iddynt gael lleoliad maeth. Diweddarwyd bod y Swyddfa Gartref yn disgwyl i'r awdurdodau lleol leoli'r plant mewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y cyfeiriad. Pwysleisiwyd nad yw hyn yn bosib ac o'r herwydd mewn un achos, mae'r plentyn wedi gorfod ei leoli yng Nghaint tra mae swyddogion yn canfod lleoliad mwy addas a lleol i Wynedd. Adroddwyd bod y problemau hyn sy'n codi fel rhan o'r Cynllun Trosglwyddo yn digwydd ar hyd Cymru gyfan.

Cadarnhawyd niferoedd Ceiswyr Lloches ym mhob Sir y Gogledd (yn unol â gwybodaeth a dderbyniwyd yn Haf 2023, am gyfnod o 8 'cycle') fel a ganlyn:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – 2 o blant
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – 3 o blant
- Cyngor Sir Ynys Môn – 4 o blant
- Cyngor Sir Ddinbych – 7 o blant
- Cyngor Gwynedd – 9 o blant
- Cyngor Sir Y Fflint – 11 o blant

Cymharwyd hyn gyda lleoliadau eraill yng Nghymru megis Sir Gaerfyrddin (12 o blant), Casnewydd (1 plentyn), Abertawe (3 o blant) a Chaerdydd (1 plentyn).

Manylwyd bod 26 o Geiswyr Lloches o dan olaf y Cyngor ers cyfod o ddwy flynedd a hanner ac y disgwylir 6 plentyn ychwanegol cyn Ebrill 2024. Eglurwyd bod y plant dan ofal y Cyngor unwaith bydd cyfeiriad yn cael ei wneud gan y Swyddfa Gartref. Eglurwyd bod cyfrifoldeb y Cyngor yn gyfystyr a'r cyfrifoldebau ar gyfer unrhyw blentyn o Wynedd yn ein gofal. Cadarnhawyd bod capasiti'r tîm wedi cynyddu yn ddiweddar er mwyn delio gyda'r heriau ychwanegol sy'n deillio o dderbyn mwy o geisiadau.

Tynnwyd sylw i bwysigrwydd rhieni maeth. Atgoffwyd yr Aelodau bod sesiwn wedi cael ei gynnal yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd eleni gan rieni maeth, ble roedden nhw yn trafod yr heriau a'r boddhad o fod yn rhieni maeth. Ymfalchïwyd yn y gefnogaeth roedd y rhieni maeth yn rhoi i'w gilydd ac i'r Cyngor.

Eglurwyd bod cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor yn dilyn Deddf Plant 1989 ac 2004 i gadw teuluoedd gyda'i gilydd ble mae'n ddiogel a phriodol i wneud hynny. Esboniwyd bod y Cyngor yn derbyn gorchmynion llys i symud plant o'r cartrefi os oes risg iddynt yn y cartref. Adroddwyd bod gofyniad ar y Cyngor i ofyn a oes gan y rhieni unigolion o fewn eu teuluoedd bydd modd eu hasesu er mwyn cadw'r plant o fewn y teulu. Pwysleisiwyd bod hyn yn ddibynnol ar oedran a dealltwriaeth y plentyn yn ogystal ag asesiad o'r oedolion a enwebwyd. Cadarnhawyd bod yr unigolion a enwebwyd yn cael eu cofrestru fel rhieni maeth os yn addas ac yn cael goruchwyliaeth gan y Cyngor mewn unrhyw fodd, hyd yn oed os ydi nhw y tu hwnt i Wynedd.

Adroddwyd bod lleoliadau maeth ddim yn addas pob tro ac felly mae'r Cyngor yn darparu lleoliad preswyl. Sicrhawyd bod goruchwyliaeth fisol i'r lleoliadau hyn. Nodwyd bod swyddogion yn mynd y tu hwnt i ofyniad statudol er mwyn sicrhau cysylltiad gyda'r plant hynny. Pwysleisiwyd mai swyddogion y Cyngor sy'n mynd i weld plant mewn lleoliadau preswyl gan eu bod yn hanu o Wynedd. Eglurwyd bod hyn yn caniatáu swyddogion i rannu gwybodaeth ac adnoddau dysgu yn Gymraeg i'r plant yn ogystal â chyfathrebu gyda'r plant yn eu hiaith gyntaf.

Diolchwyd yn fawr i bawb sy'n rhieni maeth yn y Sir ac i'r swyddogion sy'n eu cefnogi.

Cyfeiriwyd at nifer o agweddau eraill sy'n rhan o weithrediad y Panel megis 'Cartref Sefydlog', 'Iechyd da', 'Addysg dda' a 'chodi ymwybyddiaeth'. Eglurwyd bod cyfraniadau yn cael eu darparu yn draws adrannol i gefnogi gwaith y Panel.

Cadarnhawyd bod blaenoriaethau'r Panel am y flwyddyn i ddod yn cynnwys cynllun 'Cartrefi Grŵp Bach' syn rhan o Gynllun y Cyngor 2023-28, sy'n ymgeisio i leoli pob plentyn o Wynedd sydd mewn gofal, o fewn Gwynedd.

Diolchwyd i holl swyddogion yr Adran sy'n gweithio'n galed i ofalu am yr holl blant o dan ofal y Cyngor.

## 9. ADDYSG ÔL-16 ARFON

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Beca Brown.

**PENDERFYNIAD**

1. **Cymeradwywyd Opsiwn 2 ar gyfer prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon.**
2. **Cymeradwywyd i'r Pennaeth Addysg gynnal trafodaethau ar adolygu'r memorandwm o ddealltwriaeth gyda'r rhan-ddeiliaid sydd yn ffurfio Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn gyda'r bwriad o gryfhau'r trefniadau ac adrodd yn ôl i'r Cabinet gydag argymhellion ar gyfer y diwygiadau a gytunwyd.**
3. **Caniatawyd i ddargyfeirio rhan o gyllideb prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon ar gyfer cyfarch y bwlch ariannol sydd ym mhrosiectau Band B yn unol â'r**

**adroddiad, nad oes modd symud ymlaen â hwy ar hyn o bryd gan nad oes cyllideb ddigonol ar eu cyfer yn sgil cynnydd mewn costau.**

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd yr Aelodau i'r Cabinet ganiatáu cychwyn proses ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid allweddol er mwyn ystyried y ddarpariaeth ôl-16 bresennol, ac amlygu'r ystyriaethau allweddol er mwyn adnabod y cyfeiriad a'r cyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth yn Arfon, mewn cyfarfod ym mis Mawrth 2020. Manylwyd bod dau weithgor wedi ei gynnal gyda dysgwyr, rhieni, staff dysgu a llywodraethwyr er mwyn rhoi cyfle iddynt leisio eu barn a holi unrhyw gwestiynau.

Adroddwyd mai'r prif negeseuon a dderbyniwyd o'r broses ymgysylltu hwn oedd:

- Y brif flaenoriaeth yw ansawdd addysg
- Y dylid defnyddio TGCh i ategu a chefnogi'r dysgu wyneb yn wyneb.
- Bod Addysg Gymraeg a dwyieithog yn greiddiol bwysig (er rhai sylwadau i'r gwrthwyneb)
- Y dylid defnyddio'r arian cyfalaf i wella cyfleusterau ein hysgolion uwchradd yn gyffredinol fel bod modd i'r holl ddysgwyr 11-18 oed elwa o'r buddsoddiad.
- Bod gwrthwynebiad cyffredinol i unrhyw fwriad i ganoli neu drydyddu'r ddarpariaeth
- Y cafwyd sawl sylw am ddarpariaeth Grŵp Llandrillo Menai o safbwynt ansawdd, cyfrwng a gofal bugeiliol.

Cydnabuwyd nad yw'r achos dros newid mor gryf erbyn hyn ag yr oedd hi nol yn 2020. Ystyriwyd bod dyheadau ac anghenion pobl ifanc wedi newid yn sgil y Pandemig a bod y Cyngor wedi dysgu gwersi am bwysigrwydd technoleg mewn addysg. Nodwyd bod sylwadau cryf wedi dod gan benaethiaid bod angen edrych ar addysg uwchradd yn ei gyfanrwydd yn hytrach na manylu ar addysg ôl-16 yn unig. Adroddwyd bod rhai o siroedd eraill yn ymdrin ag addysg ôl-16 fel rhan o'r gyfundrefn uwchradd, ond mae Gwynedd yn dewis peidio gwneud hynny oherwydd cryfderau ac arolygiadau cadarnhaol am y trefniant presennol.

Cydnabuwyd bod buddsoddiad yn ysgolion uwchradd wedi bod yn is nag ysgolion cynradd. Croesawyd y bwriad i fuddsoddi mewn ysgolion uwchradd yn y Sir sydd wir ei angen. Pwysleisiwyd gan y Pennaeth Cynorthwyol Addysg: Gwasanaethau Corfforaethol bod buddsoddi mewn ysgolion uwchradd wedi bod yn llai arwyddocaol nac i'r gyfundrefn gynradd a hynny oherwydd bod gan y gyfundrefn honno nifer sylweddol yn uwch o ysgolion na'r gyfundrefn uwchradd. Er hyn, sicrhawyd bod y gyfundrefn uwchradd yn derbyn sylw gan yr adran a chyfeiriwyd at nifer o brosiectau ar y gweill i gynorthwyo hynny.

Rhannwyd pryder am yr heriau o ddenu staff i ddysgu pynciau allweddol, ar y cyd gyda niferoedd isel o ddisgyblion yn astudio rhai pynciau arbenigol. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol Addysg: Uwchradd nad yw holl bynciau Lefel A yn cael eu dysgu ym mhob ysgol ar hyn o bryd. Er hyn, gobeithir i Gonsortiwm Addysg Gwynedd ac Ynys Môn addasu er mwyn cyfarch anghenon disgyblion, megis cynnig cyrsiau hybrid ble mae elfen o addysgu wyneb i wyneb ac elfennau ymuno o bell.

Eglurwyd bod dau opsiwn ar ddyfodol y prosiect yn seiliedig darganfyddiadau yn dilyn cyfnod o ymgysylltu gyda rhanddeiliaid. Cadarnhawyd yr opsiynau hyn fel:

1. Buddsoddi yn y Gyfundrefn Addysg Ôl-16 bresennol
2. Arallgyfeirio Cyllideb Addysg Ôl-16 Arfon

Adroddwyd bod yr Adran yn teimlo mai Opsiwn 2 uchod yw'r ffordd ymlaen gan ei fod yn ffordd o gyfarch gwir anghenion ysgolion Hirael, Tryfan a Brynrefail gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r amgylchedd dysgu a phrofiadau dysgwyr yn yr ysgolion.

**10. ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Elin Walker Jones

**PENDERFYNIAD**

**Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.**

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr adran yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i'w gwasanaethau a bod eu llwyddiant i wneud hyn yn cael ei fesur drwy gyfarfodydd Herio Perfformiad rheolaidd.

Adroddwyd bod yr adran yn arwain ar ddau o brosiectau Cynllun y Cyngor. Nodwyd mai un ohonynt yw'r 'Cynllun Cartrefi Grŵp Bychan'. Eglurwyd bod yr adran yn datblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau. Cadarnhawyd bod ymweliadau eiddo wedi cymryd lle er mwyn symud y prosiect yn ei flaen a thŷ wedi cael ei ystyried. Manylwyd bod darn o dir mewn ardal arall o Wynedd yn cael ei ystyried i adeiladu tŷ ar gyfer y pwrpas y cynllun hwn. Esboniwyd bydd grŵp prosiect yn cael ei sefydlu yn 2024 yn cynnwys swyddogion yr adran Blant, Tai ac Eiddo, Addysg a'r Gwasanaeth Iechyd i oruchwylio'r cynllun. Sicrhawyd bod £50,000 yn ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r prosiect yn ddiweddar o danwariant cronfa RIF.

Adroddwyd mai'r ail brosiect Cynllun y Cyngor sydd o dan arweiniad yr Adran yw'r 'Cynllun Awtistiaeth'. Eglurwyd bod plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig yn wynebu heriau i dderbyn cefnogaeth arbenigol angenrheidiol. Ymrwymwyd i wella'r gwasanaeth gan ei wneud yn haws i unigolion dderbyn gwasanaethau. Cadarnhawyd bod fforwm wedi ei sefydlu ar gyfer edrych ar y cyfeiriadau sydd yn cyrraedd y Cyngor. Darparwyd gwybodaeth am lansiad y Gwasanaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ac roedd hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn. Nodwyd bod nifer o staff y Cyngor bellach wedi cael cyfle i fynd ar y Bws Profiad Realiti Awtistiaeth sy'n rhoi profiad tebyg i sut mae unigolyn gydag Awtistiaeth yn gweld y byd o'u cwmpas. Manylwyd ei fod yn ofynnol i staff Cyngor Gwynedd gwblhau hyfforddiant lefel 1 a 2 yn y maes awtistiaeth. Sicrhawyd bod yr adran yn cydweithio'n gyson gyda'r Tîm Niwroddatblygiadol a Thîm Derwen gyda'r cynllun.

Cydnabuwyd bod sefyllfa gweithlu'r adran yn parhau i fod yn fater o bryder difrifol. Er hyn, cadarnhawyd bod yr adran yn ymdrechu i sefydlogi’r sefyllfa at y dyfodol drwy gydweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai ac ymweliadau gyda myfyrwyr Iechyd a Gofal i’w hysbysu o’r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael.

Cadarnhawyd bod yr adran yn parhau i weld natur ddwys a chymhleth yn dod i sylw’r Cyngor a bod y niferoedd yr achosion agored yn cynyddu. Manylwyd bod niferoedd yr achosion sydd yn agored i’r Tîm Ôl-16 ar ei uchaf erioed, gydag 210 o achosion yn cael eu hymdrin â hwy. Ystyriwyd bod hyn yn mynd law yn llaw gyda chynnydd mewn cyfraniadau digartrefedd ac felly mae’r adran yn cydweithio gyda’r Tîm Digartrefedd i geisio canfod lloches addas. Cydnabuwyd bod hon yn her enfawr.

Nodwyd bod effeithiau’r pandemig, argyfwng costau a straen yn arwain at niferoedd uwch o bobl cysylltu gyda’r adran am wybodaeth a chefnogaeth. Eglurwyd bod 1894 o bobl wedi dod i gyswllt gyda’r adran rhwng Gorffennaf a Medi 2023, sy’n ffigwr sylweddol uwch na’r hyn a welwyd cyn y pandemig.

Pwysleisiwyd bod yr adran yn rhan o ymgyrch maethu cenedlaethol ‘Maethu Cymru’ i ddenu pobl i feddwl am faethu. Nodwyd bod yr ymgyrch wedi bod yn weithgar iawn dros yr haf drwy fynychu nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys y Sioe Frenhinol a’r Eisteddfod Genedlaethol be gynhaliwyd ‘Panel Cyflogwr Cyfeillgar’ a sgwrs ‘O’r galon’ am y pwnc. Ymhelaethwyd bod nifer o fusnesau wedi bod yn gefnogol iawn rwy arddangos baneri a phosteri. Cadarnhawyd bo ap ‘Care Friends’ wedi cael ei lansio ym mis Medi sy’n gwobrwyo gofalwyd maeth pan fyddent yn rhannu gwybodaeth am faethu gyda’u cysylltiadau ac yn eu hannog ar hyd eu taith i fod yn ofalwyr maeth. Eglurwyd byddai defnyddwyr yn casglu pwyntiau pob tro byddant yn cyfeirio rhywun i’r adran a gallir eu trosglwyddo i arian parod er mwyn eu helpu gyda chostau bob dydd.

Cadarnhawyd bod yr adran wedi gwireddu cyfanswm Cynlluniau Arbedion 23-24 o £44,010. Ymhelaethwyd bod yr Adran wedi derbyn £130,000 fel bid un-tro tuag at parhau i gyflogi 3 ymarferydd gofal cymdeithasol. Eglurwyd bod bid wedi ei gwblhau i wneud y swydd yn barhaol ar gyfer 2024-25 a gobeithir clywed canlyniad y bid hwnnw ym mis Ionawr 2024.

## 11. ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn rhoi diweddariad ar waith yr adran gan amlinellu beth sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor, adrodd ar berfformiad yr adran ynghyd a’r sefyllfa ariannol.

Cadarnhawyd bod cais cynllunio ar gyfer Dolfeurig wedi cael ei dderbyn gan y Parc Cenedlaethol, fel rhan o’r prosiect ‘Cefnogaeth Ataliol yn Lleol’ sy’n rhan o Gynllun y

Cyngor. Manylwyd y gobeithir cychwyn ar y gwaith adeiladu ar y safle yn ystod haf 2024 yn dilyn proses o ddylunio a chontractio.

Sicrhawyd bod gwaith sylweddol yn mynd rhagddo i wella hygyrchedd at wybodaeth ac at ddigwyddiadau ar draws y Sir drwy dudalennau ar wefan y Cyngor sydd yn cael eu hadolygu'n barhaus.

Manylwyd ar brosiect 'Byw'n Annibynnol' sydd hefyd yn rhan o Gynllun y Cyngor gan gadarnhau bod Tai Gofal Ychwanegol Ysgafn ym Mhwllheli wedi agor ar 27ain Tachwedd. Ymfalchïwyd bod prosiectau tebyg ar y gweill yn ardaloedd Groeslon, Nefyn, Tywyn, Penrhyndeudraeth a thu hwnt. Sicrhawyd bod yn adran yn gweithio i adnabod unigolion addas i ddefnyddio'r safle. Mynegwyd pryder ar ddiffyg datblygiad ar y gwaith o adnabod safle cyffelyb yn Nolgellau. Eglurwyd bod lleoliadau yn cael eu hasesu yn ôl anghenion yr unigolion a bod anawsterau wedi codi wrth geisio canfod lleoliad canolog ar gyfer y safle, ond bod hyn yn flaenoriaeth i'r Adran. Pwysleisiwyd byddai'r Aelod Cabinet yn gofyn am ddiweddariad yng nghyfarfod herio perfformiad nesaf yr adran.

Pwysleisiwyd bod yr adran yn paratoi at drawsnewidiad digidol erbyn 2025, gan edrych ar dechnoleg newydd tra hefyd yn rhoi ystyriaeth i ddefnydd yr adnoddau digidol i ddefnyddwyr ardaloedd gwledig. Cydnabuwyd bod y gwaith hwn yn newydd ac yn newid yn gyson. Yn yr un modd, cadarnhawyd bod yr Adran yn canolbwyntio ar fodelau taliadau uniongyrchol wrth i'r gwasanaeth hwn gael ei drosglwyddo i ddarparwyr newydd yn fuan.

Adroddwyd bod rhestrau aros am dderbyn asesiad therapi galwedigaethol wedi cynyddu ar raddfa bryderus, gan orfodi'r adran i flaenoriaethu ar sail risg. Cyfeiriwyd at her arall sy'n wynebu'r adran sef oriau gofal cartref sydd heb eu diwallu. Nodwyd bod y canran hwn wedi cynyddu o 12.1% i 14% yn ddiweddar. Golyga hyn bod 154 unigolyn yn aros am ofal cartref o'r newydd erbyn diwedd Medi 2023, o'i gymharu â 137 ar ddiwedd mis Mai 2023.

Tynnwyd sylw at niferoedd brawychus o gyfeiriadau sy'n cyrraedd y Tîm Iechyd Meddwl. Cadarnhawyd bod yr adran yn derbyn rhwng 450 a 500 yn y misoedd diwethaf. Cydnabuwyd bod hyn yn codi pryderon am gapasiti'r adran i ddelio gyda'r galw am gefnogaeth, ymfalchïwyd bod 40% o'r ceisiadau hyn wedi derbyn pecyn gofal wedi ei ddarparu ar eu cyfer.

Cyfeiriwyd at faterion diogelu gan gadarnhau bod yr adran wedi llwyddo i reoli'r perygl mewn 100% o atgyfeiriadau diweddar. Er hyn, pryderwyd bod 306 o unigolion yn aros am asesiad Diogelu rhag Amddiffyn Rhyddid (DoLS) ar ddiwedd mis Medi 2023. Eglurwyd bod y broblem hon yn ymddangos mewn nifer fawr o awdurdodau lleol.

Trafodwyd sefyllfa ariannol yr Adran gan y rhagwelir i'r adran orwario oddeutu £6.5 miliwn ar gyllideb 2023-24. Eglurwyd bod hyn yn deillio o'r pwysau sydd ar yr adran a bod swyddogion yn llwyr ymwybodol ohono, a'r effaith mae'r gorwariant hwn yn ei gael ar adrannau eraill y Cyngor. Cadarnhawyd bod yr Aelod Cabinet wedi gofyn am fwy o wybodaeth gan yr adran am orwariant yn y meysydd Gofal Cartref, Lleoliadau Preswyl a Nyrsio a'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 3:00pm

CADEIRYDD

# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | GDMC Caernarfon, Pwllheli a Cricieth |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Dilwyn Morgan |
| **Swyddog perthnasol:** | Daron Marged Owens – Uwch Swyddog Gweithredol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 19/12/2023 |

1. **Penderfyniad a Geisir:**

   (a) Cymeradwyo ymgymryd â'r broses o ystyried cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) newydd ar gyfer ardaloedd penodol yng Nghaernarfon, Criccieth a Pwllheli , yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig drafft a atodwyd yn atodiad 1

   (b) Awdurdodi Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant i ymgymryd â phroses ymgynghori am gyfnod o 28 diwrnod, gan ddychwelyd i'r Cabinet am benderfyniad ynghylch a ddylid cyflwyno GDMC yng Nghaernarfon,  Pwllheli a Cricieth

2. **Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**
   Awdurdodau Lleol a neb arall sydd gyda'r hawl i greu GDMC. Yn unol â Chyfansoddiad yr Awdurdod Lleol, mae creu gorchymyn o'r fath yn swyddogaeth weithredol a'r Cabinet sy'n gyfrifol ynglŷn â fo.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

### 3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn rhoi'r grym i Awdurdodau Lleol gyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) i ymdrin â niwsans(au) neu broblem(au) penodol mewn mannau penodol. Cysylltodd yr Heddlu â'r Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol i wneud cais am GDMC mewn ymateb i'r mathau newydd a chynyddol o ymddygiad gwrthgymdeithasol a welwyd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Chricieth.

### 3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Cyn gwneud gorchymyn o'r fath, rhaid i'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon -

- Bod sail resymol dros gredu fod y gweithgareddau hyn mewn man cyhoeddus wedi cael, neu yn debygol o gael, effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn y cyffiniau.
- Bod y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod, yn fynych ac yn barhaus eu natur.
- Bod y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod, yn afresymol.
- A'u bod yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir.

Yn ogystal, cyn gwneud gorchymyn, rhaid i'r Awdurdod Lleol ymgynghori â'r Heddlu a'r gymuned ehangach. Mae'r materion hyn eisoes wedi'u trafod yn faith gyda'r Heddlu, Aelodau Lleol a Chynghorau Tref Caernarfon, Cricieth a Pwllheli. Mae pob un o blaid cyflwyno Gorchymyn yn eu hardaloedd priodol. Yn ogystal rydym wedi derbyn sylwadau gan Aelodau Seneddol Arfon a Dwyfor Meirionnydd yn nodi eu cefnogaeth.

Mae'r gorchmynion yn gweithio drwy alluogi i ymddygiadau gael eu herio, a rhoi cyfle i'r unigolyn ddod â'r gweithgaredd i ben. Os nad oes modd gwneud hyn, mae canllawiau'r Swyddfa Gartref yn awgrymu camau gweithredu o gyflwyno hysbysiad cosb benodedig i'r person. Fodd bynnag, mae'r Heddlu wedi awgrymu dull gwahanol i'r Gorchmynion hyn. Bwriad yr Heddlu yw defnyddio model gorfodaeth nad yw'n defnyddio hysbysiadau cosb benodedig, ond sydd, yn hytrach, yn defnyddio model sy'n ddibynnol ar ddyrchafu ymatebion yn seiliedig ar ymddygiad yr unigolyn. Hynny yw, herio yn y lle cyntaf, adrodd am wŷs os oes angen, ac arestio mewn sefyllfaoedd penodol (gweler y siart llif sydd ynghlwm yn atodiad 3). Gall gorchmynion barhau hyd at dair blynedd, ac yna gellir ei ymestyn os oes angen.

**Tystiolaeth - i gefnogi'r sail angenrheidiol i'r Awdurdod Lleol wneud gorchymyn o'r fath**

Yn dilyn trafodaeth dechreuol, cyflwynodd yr Heddlu dystiolaeth o'r mathau o ymddygiad a welwyd yn gyson mewn ardaloedd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Cricieth. Adroddodd yr Heddlu fel y ganlyn:-

**Caernarfon**

Rhwng y cyfnod 01/04/2021 – 31/07/2023, adroddwyd 213 o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn yr ardal PSPO arfaethedig. Cofnodwyd 112 yn ystod 12 mis olaf y cyfnod hwn. Roedd y nifer uchaf o ddigwyddiadau ym mis Awst 2022. Y lleoliadau uchaf oedd Penllyn, Stryd Llyn, Pool Hill a’r Maes. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ei waethaf ar ddydd Llun a dydd Iau rhwng 4pm a 9pm.

**Cricieth**

Rhwng y cyfnod 01/04/2021 – 31/07/2023, adroddwyd 97 achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ward Cricieth. Cofnodwyd 41 o ddigwyddiadau yn ystod 12 mis olaf y cyfnod hwn. Cofnodwyd y nifer uchaf o ddigwyddiadau yn Ebrill 2022 a Chwefror 2023. Y lleoliadau uchaf oedd yr Esplanadae, Lôn Henbont, Stad Waen Helyg a Stryd y Castell. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ei waethaf ar ddydd Mawrth a dydd Sadwrn rhwng 4pm a 10pm.

**Pwllheli**

Rhwng y cyfnod 01/04/2021 – 31/07/23, adroddwyd 494 achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ward Gogledd Pwllheli. Cofnodwyd 139 o ddigwyddiadau yn ystod 12 mis olaf y cyfnod hwn. Cofnodwyd y nifer uchaf o ddigwyddiadau yn Chwefror a Mai 2023. Y lleoliadau uchaf oedd Sand Street, y Stryd Fawr a Lôn Abererch. Mae

ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ei waethaf ar ddydd Gwener rhwng 10-11am, 1-2pm a 5-9pm.

---

Mae'r Heddlu hefyd wedi darparu datganiadau effaith gan eu swyddogion ag busnesau yn yr ardaloedd yma. Mae'r wybodaeth hon yn amlygu'r mathau o ddigwyddiadau a welwyd, a sut mae'r digwyddiadau hyn yn cael effaith andwyol ar fywydau a gwaith o ddydd i ddydd.

Yng **Nghaernarfon**, mae un busnes yn disgrifio grwpiau mawr o bobl ifanc yn ymgynnull, yn gwisgo balaclavas a'u cyflau i fyny, gan achosi braw a dangos diystyriaeth llwyr i'r cyhoedd. Mae glanhawr mewn lleoliad cyfagos yn ysgrifennu bod pobl ifanc yn achosi difrod a bod y sbwriel sydd ar ôl wedi cynnwys bagiau snap clir gwag a chaniau ocsid nitraidd. Dywedir bod y bobl ifanc hyn mor ifanc â 13. Mae busnes arall gerllaw yn nodi y gall y grwpiau fod yn gymaint â 50 o bobl ifanc, ac maent wedi eu gweld yn gweiddi'n sarhaus ar bobl sy'n mynd heibio. Mae'r busnes hwn yn ysgrifennu bod cwsmeriaid wedi nodi eu bod wedi gorfod mynd heibio pan oeddent yn bwriadu dod i mewn, oherwydd bod y fynedfa'n orlawn o bobl ifanc.

Mae mater arall yn ymwneud â grŵp o oedolion yn loetran mewn cyflwr meddw yn yr ardal. Mae un busnes yn eu disgrifio'n eistedd ar feinciau y tu allan i'w safle, yn yfed alcohol drwy'r dydd. Mae'r grŵp hwn yn ymddwyn yn afreolus, gan weiddi a rhegi. Mae eu presenoldeb yn atal aelodau o'r cyhoedd rhag cymryd sedd ar feinciau gerllaw. Ategir hyn gan fusnes arall, sydd wedi gweld yr oedolion hyn yn cyrraedd mor gynnar â 9am. Maen nhw hefyd yn nodi'r braw a achoswyd, sydd wedi arwain cwsmeriaid i ddweud eu bod wedi ystyried peidio â dod i mewn i'r busnes ac i ddod yn ôl dro arall i osgoi cerdded wrth eu hymyl. Mae poteli gwag a chaniau o alcohol yn cael eu gadael y tu allan i'r adeilad, ac mae nodwyddau wedi'u defnyddio hyd yn oed wedi'u canfod yma.

Yng **Nghricieth**, mae disgrifiadau o gangiau mawr o bobl ifanc yn teithio yma o ymhellach i ffwrdd. Mae digwyddiadau'n cynnwys yfed dan oed, ymddwyn yn fygythiol, taflu poteli a thresmasu ar eiddo preifat. Mae'r ymddygiad hwn yn effeithio'n fawr ar drigolion a busnesau lletygarwch lleol. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn nodi y bu cymaint â 100 o bobl ifanc yn ymgynnull yn yr ardal hon ar adegau. Deellir bod hon yn broblem barhaus, sydd wedi bod yn digwydd ers o leiaf 10 mlynedd ac wedi gwaethygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ym **Mhwllheli,** mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn ymwneud a defnydd alcohol a chyffuriau sy'n cael effaith andwyol ar y dref a'i chymuned. Mae digwyddiadau diweddar yn y safle bysiau wedi cynnwys unigolion meddw yn sarhaus ar lafar, mewn cyflwr o gwymp, yn dinoethi eu hunain, trais ac ymladd, ac aelodau cyfagos o'r cyhoedd yn cael eu brifo. Dywedir sut mae pobl yn osgoi mynd i mewn i'r llochesi bysiau oherwydd bod yn well ganddynt sefyll yn y glaw. Mae tu mewn i'r llochesi yn aml yn llawn sbwriel o ganiau a photeli alcohol gwag. Mae'r digwyddiadau hyn wedi digwydd yn ystod y dydd, yn aml pan fo pobl oedrannus sy'n defnyddio trafnidiaeth

gyhoeddus gerllaw. Mae busnesau yn yr ardal wedi disgrifio eu bod wedi gorfod golchi cyfog ac wrin o'r tu allan i'w busnes. Mae pryderon difrifol hefyd am nifer y poteli a chaniau sy'n cael eu taflu a allai achosi anaf a difrodi cerbydau.

---

Dylid ystyried opsiynau eraill yn weithredol cyn cyflwyno PSPO. Rydym wedi derbyn gwybodaeth cynhwysfawr o'r ymyriadau amrywiol a ddefnyddiwyd yn flaenorol gan yr Heddlu i ymdrin â'r problemau hyn. Rydym yn fodlon bod yr Heddlu eisoes wedi defnyddio pob dull sydd ar gael iddynt i fynd i'r afael â'r ymddygiadau hyn. Mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod sail ddigonol i ddod i’r casgliad bod cyfiawnhad dros ystyried gorchymyn o’r fath.

Diben y Ddeddf 2014 yw lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd lleol. Pan fydd gorchymyn yn cael ei ystyried, mae'n bosibl y gallai problemau symud i feysydd eraill ac rydym yn cydnabod hyn. Bwriedir i Gorchmynion ymdrin â phroblem benodol mewn ardal benodol sy'n niweidiol i ansawdd bywyd. Mae'r ardaloedd arfaethedig PSPO (Atodiad 2) wedi'u nodi oherwydd effaith yr ymddygiad ar y gymuned, busnesau ac ymwelwyr.

Mae'r cyfyngiadau dan ystyriaeth wedi eu datblygu'n benodol i ymdrin â'r mathau o ymddygiad sy'n achosi'r problemau mwyaf (a nodir uchod), sydd felly yn cyfiawnhau eu cynnwys. Rydym yn ystyried fod y cyfyngiadau canlynol yn addas, sef:

1. Ni chaiff person ddilyn cwrs o ymddygiad sydd yn achosi, neu sydd yn rhesymol canfod ei fod yn achosi aflonyddwch, braw, niwsans neu drallod.
2. Ni chaiff person yfed alcohol, nac un rhywbeth y mae Person Awdurdodedig yn rhesymol gredu i fod yn alcohol neu gynhwysydd i ddal alcohol, os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i'r person stopio ag yfed neu ildio’r alcohol neu’r cynhwysydd.
3. Ni chaiff person loetran mewn cyflwr o feddwdod o ganlyniad i gymryd alcohol neu gyffuriau. Os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i'r person ymadael â’r ardal mewn amgylchiadau lle bo’r person wedi tramgwyddo’r cyfyngiad yma, rhaid I'r person ymadael ar unwaith.

Mae swyddogion yr Awdurdod Lleol wedi cael sicrwydd y bydd yr Heddlu yn rhagweithiol wrth eu gorfodi. Bydd gofyn i'r Heddlu weithredu ar fyrder os bydd y problemau'n symud i fannau cyfagos, yn arbennig ardaloedd preswyl, gan ddefnyddio gweithredoedd gorfodi eraill priodol i'w lliniaru. Maent hefyd wedi cytuno i fonitro patrymau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac adrodd yn rheolaidd. Mae’r Cynghorau Tref wedi cytuno mewn egwyddor i gyfrannu at yr arwyddion bydd eu hangen os bydd y Gorchmynion yn dod i rym. Bydd y cyllideb Diogelwch Cymunedol yn cyfarch y costau arwyddion su’n weddill.

Yn unol â gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010, mae asesiad effaith wedi'i gynnal mewn perthynas â'r broses hyd yma. Bydd yr asesiad yn cael ei ddiweddaru yn dilyn ymgynghoriad statudol, a chyn dychwelyd i'r Cabinet am benderfyniad terfynol.

Hyd yma nid yw'r asesiad wedi dangos unrhyw reswm dros beidio â pharhau gyda'r broses. (Atodiad 4)

Yn unol ag argymhellion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, mae'r datblygiad hwn wedi ystyried egwyddorion y ddeddfwriaeth, ac yn benodol y cysyniad o bum ffordd o weithio - fel y dangosir isod -

**Hirdymor** Fe fydd y gorchymyn ei hun yn parhau mewn lle am 3 mlynedd, gyda'r bwriad o newid agweddau pobl tuag at eu hymddygiad mewn mannau cyhoeddus. Yn y tymor hirach, gobeithir y bydd hyn yn cyfrannu tuag at agweddau a pharch mwy cyfrifol tuag at warchodaeth o'n cymunedau, a dealltwriaeth o'r angen i gysidro'r effaith ar eraill.

**Atal** Fe fydd gorchymyn o'r math yn helpu i leihau'r niferoedd o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned, ac yn help i atal y sefyllfa rhag dirywio yn y dyfodol agos.

**Integreiddio** Tuag at uchelgais y Cyngor o weld cymunedau sy'n llwyddo a ffynnu. Bydd hefyd yn cyfrannu tuag at amcanion yr Heddlu, sef i leihau troseddau a gwneud y strydoedd yn fwy saff i drigolion.

**Cydweithio** Mae'r datblygiad yma yn rhan o gydweithio rhwng y Cyngor a'r Heddlu yn benodol. Mae Cynghorau Tref ac Aelodau Seneddol wedi bod yn rhan o'r trafodaethau, ac fe fydd yna ymgynghoriad cyhoeddus yn digwydd cyn gall y gorchymyn gael ei gymeradwyo yn llawn.

**Cynnwys** Mae'r Heddlu, Cynghorau Tref ac Aelodau Leol wedi bod ynghlwm a'r trafodaethau , ac fe fydd ymgynghoriad cyhoeddus yn digwydd cyn penderfyniad terfynol ar y cais.

**3.3 Camau nesaf**

- Y Cabinet i gymeradwyo mewn egwyddor barhau â'r broses o ystyried cyflwyno GDMC newydd i Gaernarfon, Cricieth a Pwllheli yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig a sonnir amdano ym mharagraff 1,
- Os cymeradwyir yr uchod, rhaid Awdurdod Lleol gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r gorchymyn, a bydd angen i hwn fod yn ei le am 28 diwrnod.
- Wedi'r ymgynghoriad, bydd swyddogion yr Awdurdod Lleol yn cyflwyno canfyddiadau'r ymgynghoriad i'r Cabinet, ac yn cynghori a ydynt yn dal i argymell y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus.
- Os ydynt yn dal i argymell y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus, bydd yr Awdurdod Lleol yn mynd ati i gyflwyno'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus, chodi arwyddion.

**4. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**4.1 Prif Swyddog Cyllid** *Y penderfyniad a geisir yw lansio ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷyn â sut dylai'r Cyngor arddel ei rym i osod cyfyngiadau mewn ardaloedd penodol yn unol â deddfwriaeth. Yn hynny o beth, nid oes gennyf sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol, gan ddisgwyl y byddai unrhyw gostau ynghlwm â'r ymgynghoriad yn cael eu hariannu o gyllidebau presennol. Yn dilyn yr ymgynghoriad, os bydd y Cabinet yn ystyried y mater ymhellach er mwyn dod i benderfyniad ar osod gorchmynion, bydd angen ystyriaeth lawn o'r costau gweithredu ychwanegol bryd hynny.*

**4.2 Swyddog Monitro** *Mae'r adroddiad yn amlygu y broses statudol sydd angen ei dilyn er sefydlu y parthau yma. Bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol yn cefnogi y trefniadau yma wrth symud ymlaen.*

**Rhestr Atodiadau:**

**Atodiad 1 –** Gorchymyn Arfaethedig:- GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS CYNGOR GWYNEDD (ALCOHOL AC YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL), (CAERNARFON, CRICIETH A PWLLHELI) 2023
**Atodiad 2 –** Mapiau o'r Ardaloedd Arfaethedig PSPO
**Atodiad 3** – Llifsiart yn dangos y camau sydd am ddigwydd pan mae unigolyn yn torri'r Gorchymyn
**Atodiad 4** – Asesiad Deddf Cydraddoldeb 2010

**Rhestr Dogfennau Cefndir:**

*Public Spaces Protection Orders: Guidance for Councils. Local Government Association*

*Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014: Anti-social behaviour powers Statutory guidance for frontline professionals*

| *LLUN* | *MAWRTH* | *MERCHER* | *IAU* | *GWENER* |
|---|---|---|---|---|
| | *E-bost i'r Penaethiaid yn cynnwys y rhaglen ddrafft* | | | |
| *Dyddiad olaf cofrestru eitem* | | | | *Anfon y dogfennau at y swyddogion statudol am eu sylwadau – IE, DAM, DG* |
| | | | *Papurau i'w cyflwyno (2 iaith) i 'cabinet' erbyn hanner dydd* | *Cyhoeddi Agenda'r Cabinet i'r Aelodau Cabinet* |
| *Cyhoeddi Agenda'r Cabinet* | | | | |
| | *CYFARFOD Y CABINET* | | | |
| | | *Cyhoeddi Taflen Benderfyniad* | | |
| | | | *Penderfyniad yn weithredol oni bai ei fod yn cael ei alw i mewn* | |

*Noder y gall yr amserlen newid os oes Gŵyl y banc yn ystod y cyfnod cyhoeddi. Bydd swyddog Tîm Democratiaeth yn nodi'r dyddiadau allweddol yn yr e-bost i'r Penaethiaid.*

*Cofiwch gysylltu â'r Uned Gyfieithu i drefnu cyfieithiad mewn da bryd.*

**CYNGOR GWYNEDD**
**DEDDF YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL, TROSEDD A PHLISMONA 2014**
**GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS CYNGOR GWYNEDD (ALCOHOL AC YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL) (CAERNARFON, CRICIETH A PWLLHELI) 2023**

Mae Cyngor Gwynedd ("y Cyngor"), drwy arfer y grym a roddwyd iddo gan adran 59 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 ("y Ddeddf"), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd (Alcohol ac Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol) (Caernarfon, Cricieth a Pwllheli) 2023.

2. Daw y Gorchymyn hwn i rym ar **[XXXXXXXXXX]** a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o 3 blynedd tan **[XXXXXXXXXX]**, oni bai y caiff yn y cyfamser ei ddiddymu, ei ddiwygio, neu ei ymestyn gan Orchymyn pellach yn unol â grymoedd statudol y Cyngor.

3. Mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i'r ardaloedd a amlinellir yn goch ar y cynllun a atodwyd yn Atodlen 1 ("yr Ardaloedd Gyfyngedig").

4. Mae'r Cyngor yn fodlon bod yr amod cyntaf o dan adran 59(2) o'r Ddeddf wedi cael ei bodloni, sef:

    a. bod y gweithgareddau canlynol wedi cael eu cynnal o fewn man cyhoeddus yn yr Ardaloedd Gyfyngedig:

        i. yfed alcohol;

        ii. ymddygiad sydd yn debygol o achosi aflonyddwch, braw, niwsans neu drallod;

        iii. loetran mewn cyflwr o feddwdod o ganlyniad i gymryd alcohol neu gyffuriau, a

    b. bod y gweithgareddau hyn wedi cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardaloedd, ac mae'n debygol y bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal mewn man cyhoeddus yn yr ardaloedd honno ac y byddant yn cael effaith o'r fath.

5. Mae'r Cyngor yn fodlon bod yr ail amod o dan adran 59(2) o'r Ddeddf wedi cael ei bodloni, sef bod effaith, neu effaith debygol y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod, o natur barhaus neu barhaol a'i fod, neu'n debygol o fod, yn gwneud y gweithgaredd yn afresymol, ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodwyd gan y Gorchymyn.

6. Effaith y Gorchymyn hwn yw gosod y gwaharddiadau a/neu ofynion canlynol ym mhob man cyhoeddus yn yr Ardaloedd Gyfyngedig ar bob adeg.

**Yfed alcohol**

7. Yn ddarostyngedig i erthygl 9, mae’r gwaharddiadau canlynol yn gymwys:

a. Ni chaiff person (“P”) yfed alcohol, nac unrhywbeth y mae Person Awdurdodedig yn rhesymol gredu i fod yn alcohol, os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i P stopio ag yfed.

b. Ni chaiff P feddu ar alcohol neu gynhwysydd i ddal alcohol, nac unrhywbeth y mae Person Awdurdodedig yn rhesymol gredu i fod yn alcohol neu gynhwysydd i ddal alcohol, os yw’r Person Awdurdodedig yn gofyn i’r P ildio’r alcohol neu’r cynhwysydd.

8. Yn ddarostyngedig i erthygl 9, mae’r gofynion canlynol yn gymwys:

a. Os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i P stopio ag yfed yn yr amgylchiadau a nodir yn erthygl 7(a), rhaid i’r P stopio yfed ar unwaith.

b. Os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i P ildio alcohol neu gynhwysydd yn yr amgylchiadau a nodir yn erthygl 7(b), rhaid i’r P ildio’r cyfryw alcohol neu gynhwysydd i’r Person Awdurdodedig ar unwaith.

9. Nid yw darpariaethau erthyglau 7 ac 8 yn gymwys lle bo’r P yn yfed alcohol mewn mangre neu fan sydd o ganlyniad i adran 62 o’r Ddeddf yn eithriedig rhag waharddiad mewn gorchymyn diogelu mannau cyhoeddus ar yfed alcohol.

**Ymddygiad sydd yn debygol o achosi aflonyddwch, braw, niwsans neu drallod**

10. Ni chaiff P ddilyn cwrs o ymddygiad sydd yn achosi, neu sydd yn rhesymol canfod ei fod yn achosi, aflonyddwch, braw, niwsans neu drallod i berson arall.

11. Os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i P ymadael â’r ardal mewn amgylchiadau lle bo’r P wedi tramgwyddo erthygl 10, rhaid i’r P ymadael ar unwaith.

**Loetran mewn cyflwr o feddwdod o ganlyniad i gymryd alcohol neu gyffuriau**

12. Ni chaiff P loetran mewn cyflwr o feddwdod o ganlyniad i gymryd alcohol neu gyffuriau neu’r ddau.

13. Os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i P ymadael â’r ardal mewn amgylchiadau lle bo’r P wedi tramgwyddo erthygl 12, rhaid i’r P ymadael ar unwaith.

**Person Awdurdodedig**

14. At ddibenion y Gorchymyn hwn, mae Heddwas, Swyddog Cefnogaeth Gymunedol yr Heddlu a swyddog o’r Cyngor yn Bersonau Awdurdodedig.

**Cosb**

15. Mae person sydd heb esgus rhesymol yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan erthygl 8 o'r Gorchymyn hwn yn euog o drosedd yn unol ag adran 63 o'r Ddeddf ac yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.

16. Mae person sydd heb esgus rhesymol yn gwneud unrhyw beth a waherddir iddo rhag ei wneud gan erthyglau 10, 12 neu 14 o'r Gorchymyn hwn neu yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan erthyglau 11, 13 neu 15 o'r Gorchymyn hwn yn euog o drosedd yn unol ag adran 67 o'r Ddeddf ac yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

17. Gall Person Awdurdodedig roi rhybudd cosb benodol am swm o hyd at £100.00 yn unol ag adran 68 o'r Ddeddf i unrhyw berson y mae ef yn credu sydd wedi cyflawni trosedd o dan adrannau 63 neu 67 o'r Ddeddf o ganlyniad i'r person hwnnw yn gwneud unrhyw beth a waherddir gan y Gorchymyn neu yn methu â chydymffurfio â gofyniad o osodir gan y Gorchymyn hwn.

**Herio'r Gorchymyn**

18. Yn unol ag adran 66 o'r Ddeddf, gall unrhyw berson â diddordeb sydd yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor y grym i wneud y Gorchymyn neu bod diffyg cydymffurfiad â gofyniad o'r Ddeddf wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o'r dyddiad y gwnaethpwyd y Gorchymyn.

**GWYNEDD COUNCIL**
**ANTI-SOCIAL BEHAVIOUR, CRIME AND POLICING ACT 2014**
**GWYNEDD COUNCIL (ALCOHOL AND ANTI-SOCIAL BEHAVIOUR) (CAERNARFON, CRICIETH AND PWLLHELI)**
**PUBLIC SPACES PROTECTION ORDER 2023**

Gwynedd Council ("the Council"), in exercise of the powers conferred upon it by section 59 of the Anti-social Behaviour, Crime and Policing 2014 ("the Act"), makes the following Order:

1. The name of this Order is the Gwynedd Council (Alcohol and Anti-Social Behaviour) (Caernarfon, Criccieth and Pwllheli) Public Spaces Protection Order 2023.

2. This Order comes into force on **[XXXXXXXXXX]** and shall remain in force for a period of 3 years until **[XXXXXXXXXX]**, unless in the meantime it is revoked, amended or extended by further Order under the Council's statutory powers.

3. This Order applies to the areas outlined in red on the plan attached in Schedule 1 ("the Restricted Areas").

4. The Council is satisfied that the first condition under section 59(2) of the Act has been met, in that:

   a. the following activities have been carried out in a public place in the Restricted Areas:

      i. consumption of alcohol;

      ii. behaving in a manner that is likely to cause harassment, alarm, nuisance or distress;

      iii. loitering in a state of intoxication through consumption of alcohol or drugs, and

   b. these activities have had a detrimental effect on the quality of life of people in the locality, and it is likely that these activities will be carried on in a public place within that area and that they will have such an effect.

5. The Council is satisfied that the second condition under section 59(2) of the Act has been met, in that the effect, or likely effect of these activities is, or is likely to be, of a persistent or continuing nature and is, or is likely to be, such as to make the activities unreasonable, and justifies the restrictions imposed by the Order.

6. The effect of this Order is to impose the following prohibitions and/or requirements in every public place in the Restricted Areas at all times.

**Consumption of alcohol**

7. Subject to article 9, the following prohibitions apply:

a. A person ("P") shall not consume alcohol, or anything which an Authorised Person reasonably believes to be alcohol, if the Authorised Person asks the P to stop drinking.

b. P shall not be in possession of alcohol or a container holding alcohol, or anything which an Authorised Person reasonably believes to be alcohol or a container holding alcohol, if the Authorised Person asks the P to surrender the alcohol or container.

8. Subject to article 9, the following requirements apply:

a. If an Authorised Person asks P to stop drinking in the circumstances noted in article 7(a), the P shall stop drinking immediately.

b. If an Authorised Person asks P to surrender alcohol or a container in the circumstances noted in article 7(b), the P shall surrender the said alcohol or container to the Authorised Person immediately.

9. The provisions of articles 7 and 8 do not apply where the P consumes alcohol within premises or a place which by virtue of section 62 of the Act is exempt from a prohibition in a public spaces protection order on the consumption of alcohol.

**Behaving in a manner that is likely to cause harassment, alarm, nuisance or distress**

10. A P shall not follow a course of conduct which causes, or which can reasonably be perceived to cause, harassment, alarm, nuisance or distress.

11. If an Authorised Person asks a P to leave the area in circumstances where the P has contravened article 10, the P shall leave immediately.

**Loitering in a state of intoxication through consumption of alcohol or drugs**

12. A P shall not loiter in a state of intoxication through consumption of alcohol or drugs.

13. If an Authorised Person asks a P to leave the area in circumstances where the P has contravened article 12, the P shall leave immediately.

14. For the purposes of this Order, a Constable, Police Community Support Officer, and Council officer are Authorised Persons.

**Penalty**

15. A person who without reasonable excuse fails to comply with a requirement imposed by article 8 of this Order is guilty of an offence pursuant to section 63 of the Act and is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 2 on the standard scale.

16. A person who without reasonable excuse does anything which he is prohibited from doing by articles 10, 12 or 14 of this Order or fails to comply with any requirement imposed by articles 11, 13 or 15 of this Order is guilty of an offence pursuant to section 67 of the Act and is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

17. An authorised officer may issue a fixed penalty notice pursuant to section 68 of the Act to any person whom he believes has committed an offence under sections 63 or 67 of the Act as a result of that person doing anything prohibited by the Order or failing to comply with a requirement imposed by this Order.

**Challenging the Order**

18. In accordance with section 66 of the Act, any interested person who wishes to challenge the validity of this Order on the grounds that the Council did not have the power to make the Order or that a requirement under the Act has not been complied with may apply to the High Court within 6 weeks from the date upon which the Order is made.

| | | |
|---|---|---|
| Llofnodwyd y | diwrnod o | 2023 |
| Signed the | day of | 2023 |

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR GWYNEDD )**
**AR HWN YM MHRESENOLDEB )**
**)**
**THE COMMON SEAL OF GWYNEDD COUNCIL )**
**WAS HEREUNTO FIXED IN THE PRESENCE OF )**
**)**

**..................................................**
**Llofnodydd awdurdodedig**
**Authorised signatory**

**ATODIAD 2 YR ARDALOEDD GYFYNGIEDIG / ATTACHMENT 2 THE RESTRICTED AREAS**

ARDAL ARFAETHEDIG PSPO CAERNARFON / PROPOSED PSPO AREA CAERNARFON




ARDAL ARFAETHEDIG PSPO PWLLHELI / PROPOSED PSPO AREA PWLLHELI



ARDAL ARFAETHEDIG PSPO CRICIETH / PROPOSED PSPO AREA CRICIETH




Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) wedi'i dorri a'i adnabod
Ymgysylltu / Addysgu
Nodi torri gorchymyn PSPO perthnasol
Ymddygiad y Troseddwr yn Peidio
Ymddygiad yn gwaethygu - ystyriwch y drosedd briodol
Er enghraifft, Meddw ac Afreolus / trosedd -Trefn Gyhoeddus
Ymddygiad y Troseddwr yn Parhau
Cofnodi Manylion
Cerdyn Melyn / Dim gweithredu
Swyddog yn gadael a'r person a ddrwgdybir yn ail-droseddu
Adrodd ar gyfer Gwŷs
Defnyddio Pwerau Arestio (Cod G PACE - gofynion penodol)
Ymddygiad y Troseddwr yn Parhau
Ystyriwch ddefnyddio Hysbysiad Gwarchod y Gymuned neu Orchymyn Ymddygiad Troseddol

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen Sut i gynnal *Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i gwblhau'r ffurflen hon. Mae croeso i chi gysylltu â Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb, ar est. 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am ragor o gymorth.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried effaith newid unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu effaith creu un newydd) ar bobl gyda nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol a restrir yn rhan 2b. Rhaid cynnal asesiad effaith cydraddoldeb mewn da bryd, felly, cyn gwneud unrhyw benderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. un sydd yn effeithio pobl a chanddynt nodwedd warchodedig penodol).

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Rydym wrthi'n ystyried gweithredu gorchymyn cyfreithiol -

Gorchymyn Gwarchod Man Cyhoeddus - ar gyfer rhan o drefi Caernarfon, Cricieth a Pwllheli. Bydd yn cynnwys pedwar math o ymddygiad (YGG, sef ymddygiad gwrthgymdeithasol) a waherddir gan y gorchymyn, ac y gellir eu gorfodi fel gweithredoedd troseddol mewn rhai amgylchiadau

### 1.2 Beth yw diben y polisi / gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae'r gorchymyn yn cael ei ystyried fel ffordd o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd yn Gaernarfon, Cricieth a Pwllheli.

### 1.3 Pwy sydd yn gyfrifol am yr asesiad hwn?

Gwen Davies / Daron Owens, Uwch Swyddog Gweithredol, Partneriaeth Cymunedau Diogel - Gwynedd a Môn

### 1.4 Pryd wnaethoch chi ddechrau'r asesiad? Pa fersiwn yw hon?

F1 – 21.07.23

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid y bydd yn rhaid i chi weithio gyda nhw wrth gynnal yr asesiad hwn?

Heddlu Gogledd Cymru
Y Cabinet
Aelodau Seneddol ar gyfer y dair ardal.

Y cyhoedd a chyrff â diddordeb – yn cyd-destun yr ymgynghoriad statudol

### 2.2. Pa gamau ydych chi wedi eu cymryd i ymgysylltu â phobl gyda nodweddion gwarchodedig?

Mae ymgynghoriad cyhoeddus am gymryd lle os bydd y cais yn cael ei cymeradwyo gan y Cabinet. Bydd Holiadur yn cael ei roi ar wefan y Cyngor, llyfrgelloedd a siopau yn y 3 ardal. Bydd yr ymgynghoriad yma yn agored am 28 diwrnod.

Rydym hefyd wedi cysylltu gyda Aelodau Seneddol ar gyfer y dalgylchoedd a maent wedi ffafrio yr opsiwn yma oherwydd y sefyllfa gwrth gymdeithasol.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

- Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd.

### 2.4 Pa wybodaeth arall sydd wedi hysbysu eich ffordd o weithredu?

| |
|---|
| Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno llawer iawn o dystiolaeth ddogfennol, sy'n dangos cynnydd mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn y 3 dref – Caernarfon, Cricieth a Pwllheli.<br><br>Er enghraifft, mae cynnydd yn nifer y cwynion gan y cyhoedd am 'niwsans' mewn mannau cyhoeddus, cardota mewn llefydd penodol megis ger twll yn y wal, ac YGG yn ymwneud â chamddefnyddio cyffuriau.<br><br>Mae’r heddlu wedi cadarnhau, na’r nifer fwyaf o droseddwyr yn yr achlysuron yma ydi troseddwyr gwryw |

**2.5 A oes unrhyw fylchau mewn tystiolaeth sydd angen eu casglu?**

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol – angen mynd i ymgynghoriad cyhoeddus**.** |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Rhaid i'r Cyngor roi sylw teg i effaith unrhyw newidiadau ar bobl gyda nodweddion cydraddoldeb. Pa effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar y nodweddion hyn? Mae croeso i chi ychwanegu nodweddion eraill os dymunwch.**

| Nodweddion | Pa fath o effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedl)** | Cadarnhaol / Negyddol / Dim | Mae modd defnyddio'r gorchymyn hwn, oherwydd y gwaharddiadau penodol ynddo, i ymdrin â throsedd hiliol/casineb, a gwaharddiad cyntaf y gorchymyn yn arbennig. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Cadarnhaol / Negyddol / Dim | Dim |
| **Anabledd** | Cadarnhaol / Negyddol / Dim | Disgwylir mai nifer fach o bobl a fydd yn cyrraedd y trothwy a fydd yn arwain at arestio. I'r sawl a gaiff ei arestio, mae gan yr Heddlu weithdrefnau i gynnig ymyraethau llesiant yn y ddalfa a thu hwnt. Mae hyn yn cynnwys agweddau iechyd meddwl o anghenion unigolyn -<br><br>"Mae unrhyw berson sy'n mynd i'r ddalfa yn destun asesiad risg llawn yn ymwneud â iechyd corfforol a iechyd meddwl, a cheir mynediad i nyrs y ddalfa. Os nad yw'r person yn ddigon da i gael ei gadw yn y ddalfa, gwneir trefniadau i'w ryddhau a'u cyfeirio'n briodol. Os byddai pryderon dybryd am IM (iechyd meddwl), byddai trefniadau'n cael eu gwneud i dîm meddygol ymweld â'r ddalfa i gwblhau asesiad a, phe bai angen, roi triniaeth briodol wedi hynny. Pe na bai asesiad yn y ddalfa'n ddichonol, byddai'r person yn cael ei gludo i uned IM i gynnal un.<br><br>Mae modd defnyddio'r gorchymyn hwn, oherwydd y gwaharddiadau penodol ynddo, i ymdrin â throsedd anabledd/casineb, yn enwedig gwaharddiad cyntaf y gorchymyn. |
| **Rhywedd** | Cadarnhaol / Negyddol / Dim | Mae'n debygol o effeithio mwy o wrywod, gan fod tystiolaeth yn dangos mai gwrywod sy'n cyflawni troseddau o'r fath yn amlach, ac mae hyn wedi ei gadarnhau gan yr heddlu yn berthnasol ir dystiolaeth o ddigwyddiadau blaenorol yn yr ardal.<br><br>Bydd y gorchymyn yn amddiffyn pob rhywedd |
| **Oedran** | Cadarnhaol / Negyddol / Dim | Oedolion iau sy'n fwy tebygol o ymddwyn yn wrthgymdeithasol, ond nid nhw yn unig |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Cadarnhaol / Negyddol / Dim | Mae modd defnyddio'r gorchymyn hwn, oherwydd y gwaharddiadau penodol ynddo, i ymdrin â throsedd cyfeiriadedd rhywedd/casineb, yn enwedig |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwaharddiad cyntaf y gorchymyn. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Cadarnhaol / Negyddol / Dim | Mae modd defnyddio'r gorchymyn hwn, oherwydd y gwaharddiadau penodol ynddo, i ymdrin â throsedd crefydd neu gred/casineb, yn enwedig gwaharddiad cyntaf y gorchymyn. |
| **Ailbennu rhywedd** | Cadarnhaol / Negyddol / Dim | Mae modd defnyddio'r gorchymyn hwn, oherwydd y gwaharddiadau penodol ynddo, i ymdrin â throsedd ailbennu rhywedd/casineb, yn enwedig gwaharddiad cyntaf y gorchymyn. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Cadarnhaol / Negyddol / Dim | Dim |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Cadarnhaol / Negyddol / Dim | Dim |

***** dileer fel y bo'n briodol

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, i gyfrannu yn gadarnhaol at gymuned decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a pherthnasau da yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd, a beichiogrwydd a mamolaeth. Rhaid i'r Cyngor roi sylw teg i'r ffordd y bydd unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau hyn.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A ydy'r polisi yn cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Gwaredu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydy | Ydy, am fod y gorchymyn yn targedu ymddygiad sy'n aflonyddu yn benodol - gall hyn gynnwys trosedd casineb o bob math (yr holl nodweddion uchod) |

| | | |
|---|---|---|
| **Hyrwyddo cyfle cyfartal** | Nac ydy | Nac ydy |
| **Hyrwyddo perthnasau da** | Ydy | Ydy, gan fod gorfodaeth yn dechrau gydag ymgysylltu ac addysg. Os yw hyn yn effeithiol, mae'n atal yr ymddygiad rhag gwaethygu ac ymateb cyfreithiol. Mae, felly, yn ceisio gwella dealltwriaeth person o'r effaith y mae ei ymddygiad yn ei gael ar aelodau eraill y cyhoedd ac ati.<br><br>Un o'r bwriadau yw gwneud trefi Caernarfon, Cricieth a Pwllheli yn ofod cyhoeddus mwy diogel a braf i bob aelod o'r gymuned. |

***** *dileer fel y bo’n briodol

**4) Dadansoddi'r canlyniadau**

**4.1 A yw'r polisi, felly, yn debygol o gael effaith sylweddol gadarnhaol ar unrhyw rai o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Dyletswyddau Cyffredinol, a beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Gobeithio y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar brofiad y cyhoedd o weithio/byw/ymweld â trefi Caernarfon, Cricieth a Pwllheli, y bydd pobl yn gweld llai o YGG, ac y byddent yn teimlo'n fwy diogel pan fyddant allan yn eu cymuned |

**4.2 A yw'r Cynllun, felly, yn debygol o gael effaith sylweddol gadarnhaol ar unrhyw rai o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Dyletswyddau Cyffredinol, a beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Nid oes unrhyw beth wedi'i adnabod |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Dal ati gyda'r cynllun am ei fod yn gadarn | Ie |
| Addasu'r cynllun i gael gwared ag unrhyw rwystrau | |

| | |
|---|---|
| Gohirio a diddymu'r cynllun gan fod yr effeithiau andwyol yn rhy fawr | |
| Dal ati gyda'r cynllun am fod modd cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Os parhaer gyda'r cynllun, pa gamau a fyddwch yn eu cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Amherthnasol |

**4.5 Os nad ydych yn cymryd unrhyw gamau pellach i ddiddymu neu leihau effeithiau negyddol, eglurwch pam yn y blwch isod.**

| |
|---|
| Amherthnasol |

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau a fyddwch yn eu cymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y cynllun (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Fe fydd yr Heddlu yn paratoi adroddiadau monitro ar  orfodaeth o'r gorchymyn |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19eg Rhagfyr 2023** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2022/23 Cyngor Gwynedd** |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

---

### 1. Y penderfyniad a geisir

i. Bod y Cabinet yn ystyried ac yn cymeradwyo Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2022/23 Cyngor Gwynedd.

---

### 2. Y Rheswm Dros yr Angen am Benderfyniad

i. 2022/23 oedd blwyddyn gyntaf bodolaeth y Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) ac felly mae'n amserol i'r Cabinet adolygu'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod hwn.

ii. Gall y Cabinet gynnig sylwadau ac arweiniad ar drywydd gwaith y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur i'r dyfodol.

### 3. Cefndir

1.1 Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) yn dilyn cyfarfod o'r Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Uchelgais y cynllun yw "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." Mae "Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd" hefyd yn un o 8 o Flaenoriaethau Gwella y Cyngor o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 (llyw.cymru).

1.2 Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (y Cynllun) yn amlinellu sut y byddwn fel Cyngor yn addasu ein ffordd o weithio ac o ddarparu gwasanaethau er mwyn lleihau ein allyriadau carbon a chynyddu capasiti amsugno carbon. Mae'n cynnig enghreifftiau o brosiectau y byddwn yn eu dilyn, eu costau amlinellol a'r amserlen er mwyn cyflawni.

1.3 Daeth y Cynllun yn weithredol fis Ebrill 2022 ac felly mae'n amserol i gyflwyno Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2022/23 (Adroddiad Blynyddol) sy'n pwyso a mesur yr

hyn a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn gyntaf bodolaeth y cynllun. Mae’r Adroddiad Blynyddol i'w weld yn Atodiad 1.

1.4 Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ei gyflwyno i gyfarfod o’r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 30ain Tachwedd 2023 ac mae eu sylwadau a’u hargymhellion o faterion i’w trafod gan y Cabinet wedi eu nodi isod:

1.5 PENDERFYNWYD:

1. Derbyn yr adroddiad gan argymell:
(i) Dylid ychwanegu gwybodaeth am ‘Teithio Llesol’ o dan Adran 3 yr Adroddiad: ‘Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016’.
(ii) Dylid ystyried addasu ffurf arddangos y wybodaeth o dan y teitlau ‘Beth y wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23’ a ‘Be wnaethom ni’ yn Adrannau 5-11 yr Adroddiad er mwyn eglurder i’r darllenydd.
2. Argymell i’r Cabinet y dylid ystyried yr adnodd staff i gyflawni gweledigaeth y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur.

1.6 Mae argymhellion 1(i) ac 1(ii) wedi eu gweithredu ac i’w gweld yn Atodiad 1. O ran Argymhelliad 2 yn 1.5 bydd unrhyw gais am adnoddau ychwanegol yn derbyn sylw yn unol â threfniadau arferol y Cyngor, a byddwn yn mynd ati i drafod gyda’r swyddogion perthnasol er mwyn adnabod costau a’r dulliau ariannu mwyaf priodol.

1.7 Mae Cyngor Gwynedd, fel y rhan fwyaf o gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn casglu data ar allyriadau ac amsugno carbon gan ddilyn methodoleg sydd wedi ei datblygu gan Lywodraeth Cymru. Buom yn casglu data ar gyfer blwyddyn 2022/23 gan ddilyn y prosesau hyn, ac rydym yn defnyddio data 2019/20 fel ei blwyddyn waelodlin ar gyfer cymhariaeth.

1.8 Mae angen i ni gasglu data am y carbon sy’n deillio o’n prosesau caffael, ond mae’r fethodoleg bresennol yn seiliedig ar fesur yn ôl gwariant ariannol yn unig. Po fwyaf yr ydym yn ei wario, po fwyaf yw’r allyriadau. Oherwydd y gall hyn greu darlun amherffaith o’r gwir sefyllfa mae’r Adroddiad Blynyddol yn nodi data gyfanswm ein allyriadau gyda, a heb, data caffael.

1.9 Bu gostyngiad o 20% yn ein allyriadau caffael rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2022/23. Bu gostyngiad o 37% yn yr allyriadau ar gyfer y 7 maes arall rhwng 2019/20 a 2022/23 (adeiladau ac ynni, gwastraff, fflyd, teithio busnes, cymudo staff, goleuadau stryd, gweithio o gartref).

1.10 Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy’n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i gynnal ac i wella bioamrywiaeth ac i annog cryfder ecosystemau.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol, sef y ‘Cynllun Gweithredu Adfer Natur’ yn 2015 oedd yn amlinellu’r ymrwymiad i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru, a'r amcanion ar gyfer gweithredu. Mae’n cynnwys 6 amcan ar gyfer adferiad natur yng Nghymru.

Ar ddiwedd adrannau 5-11 o’r Adroddiad Blynyddol hwn fe welwch ddisgrifiad o sut y mae’r gwaith sydd wedi ei gyflawni yn cyfrannu at wireddu un neu fwy o’r 6 amcan uchod, sydd yn ei dro yn cydymffurfio ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

## 4. Camau nesaf ac amserlen

4.1 Byddwn yn cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ar ein gwefan ac yn rhannu gwybodaeth amdano.

4.2 Byddwn yn parhau i gyd-drafod ac adeiladu perthynas gyda phartneriaid allanol er mwyn trafod gwersi a ddysgwyd o waith ein gilydd, a sut orau i ddatblygu'r gwaith i'r dyfodol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Rwy'n fodlon gyda phriodoldeb y penderfyniad a geisir. Rwy'n nodi argymhellion y Pwyllgor Craffu ac eu bod yn derbyn sylw priodol. Fodd bynnag, gan fod y cyfrifoldeb am y penderfyniad ar y Cabinet mae'n allweddol fod yr adroddiad Cabinet yn cloriannu y sefyllfa yn gyflawn.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 - Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2022/23 Cyngor Gwynedd

# Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur:

# Adroddiad Blynyddol 2022/23

## Cyngor Gwynedd



# Cynnwys


1. Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd **2**
2. Cefndir **3**
3. Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 **4**
4. Cyrraedd y Sefyllfa Bresennol **6**
5. Adeiladau ac Ynni **9**
6. Symud a Thrafnidiaeth **12**
7. Gwastraff **15**
8. Llywodraethu **17**
9. Caffael **19**
10. Defnydd Tir **20**
11. Ecoleg **22**
12. Camau Nesaf **24**

# 1. Rhagair Arweinydd y Cyngor



Rwy’n falch o fedru cyflwyno yr Adroddiad Blynyddol cyntaf ar gyfer Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd 2022/23 – 2029/30. Mae’r adroddiad yn ceisio crynhoi yr holl waith sydd wedi ei gyflawni ym mlwyddyn gyntaf y cynllun pwysig hwn, ers i Gabinet y Cyngor ei fabwysiadu ym mis Mawrth 2022.

Mae’n newyddion gwych bod allyriadau carbon sy’n gyfrifoldeb i’r Cyngor wedi gostwng 20% rhwng 2019/20 a 2022/23, ond yr her fwyaf yw’r un sydd o’n blaenau, sef cyrraedd sefyllfa o fod yn ‘garbon sero net’.

Yn fy rhagair i’r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur dwi’n sôn am yr “heriau anferthol sydd o’n blaenau” wrth i ni ymateb i effeithiau newid hinsawdd ar ein byd. Dyw’r heriau hynny yn sicr heb leihau, yn wir mae’n bosib dadlau eu bod wedi cynyddu. Gwelsom gynnydd brawychus mewn costau ynni yn ystod y flwyddyn ac mae hynny wedi rhoi pwysau sylweddol ar gyllidebau’r Cyngor ac ar drigolion Gwynedd. Ein ymateb i’r argyfwng yma oedd buddsoddi £2.8m mewn cynllun 2 flynedd i osod rhagor o baneli solar ar ein adeiladau fydd yn cynhyrchu trydan i ni ei ddefnyddio. Bydd hyn yn arwain at arbedion ariannol ond wrth gwrs bydd hefyd yn cyfrannu’n sylweddol at leihau allyriadau carbon yr adeiladau hynny.

Gan fod yr argyfwng costau byw yn taro pobl Gwynedd yn galed rydym wedi bod yn cynnal sesiynau galw i mewn a gweithdai, ac wedi bod yn rhannu gwybodaeth am sut all ein trigolion arbed arian drwy arbed ynni yn eu cartrefi. Mi yda’ ni’n llwyr ymwybodol na ddylai neb gael eu gadael ar ôl wrth i gymdeithas symud tuag at ddefnyddio dulliau i insiwleiddio a gwresogi adeiladau sy’n allyru llai o garbon.

Mi welwch sawl enghraifft yn yr adroddiad hwn hefyd o gydweithio bendigedig rhwng mudiadau gwirfoddol a chymunedol â’r Cyngor, yn enwedig ar brosiectau i warchod a hyrwyddo byd natur. Rydym fel Cyngor yn ddiolchgar iawn i bob unigolyn sy’n rhoi o’i amser i wneud eu cymuned leol yn le braf a iach i fyw ynddo, nid yn unig heddiw ond ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

Er mai edrych yn ôl ar waith 2022/23 mae’r adroddiad hwn, mae fy llygaid i’n sicr yn edrych tua’r dyfodol. Mae yna lawer rhagor o waith yn gorwedd i’r cyfeiriad hwnnw, ac mae llawer o’r gwaith sydd wedi cychwyn yn ystod 2022/23 yn mynd i gymryd sawl blwyddyn cyn y gwelwn ei effaith yn llawn. Ymlaen â’r gwaith!

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Arweinydd Cyngor Gwynedd

## 2. Cefndir

Yn dilyn cyhoeddi 'argyfwng newid hinsawdd' yng nghyfarfod o'r Cyngor fis Mawrth 2019 fe sefydlwyd y Bwrdd Newid Hinsawdd, a arweiniodd at greu Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) (CAHN) a fabwysiadwyd gan y Cabinet fis Mawrth 2022.

Uchelgais y Cynllun yw - "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." Ychwanegwyd yr elfen 'ecolegol gadarnhaol' at y datganiad 'argyfwng newid hinsawdd' gwreiddiol er mwyn cydnabod sefyllfa argyfyngus byd natur yn ogystal, a chan fod y ddwy elfen mor gyd-ddibynnol.

Mae uchelgais y Cynllun yn cyd-fynd â tharged Llywodraeth Cymru i sefydliadau'r sector gyhoeddus *ar y cyd* fod yn garbon sero net erbyn 2030 ac i Gymru fod yn wlad sero net erbyn 2050.

Mae ein cynllun yn cynnwys nifer o ffrydiau gwaith o fewn y prif themâu –

- adeiladau ac ynni
- symud a thrafnidiaeth
- gwastraff
- llywodraethu
- caffael
- defnydd tir
- ecoleg

Mae Gwynedd Werdd yn un o 7 maes blaenoriaeth yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028, ac o fewn y flaenoriaeth honno mae yna 7 prosiect, ac mae gweithredu'r CAHN yn un ohonynt. Er hynny, mae pob un o brosiectau Gwynedd Werdd, a nifer o brosiectau eraill Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028 yn cyfrannu at brif amcan y CAHN.

Gan mai yn 2022/23 y daeth y CAHN yn weithredol, yr adroddiad blynyddol hwn yw'r cyntaf i'w gyhoeddi sy'n edrych ar yr hyn a gyflawnodd y Cyngor yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r cynllun yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Bwrdd Hinsawdd a Natur, sydd ag aelodaeth o swyddogion ac Aelodau Cabinet a chynrychiolwyr o bwyllgorau craffu.

# 3. Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (CAHN) yn datgan ein uchelgais i fod yn "...ecolegol gadarnhaol erbyn 2030". Un o'r camau y gallwn ei gymryd er mwyn gwireddu hyn yw gweithredu ar gynnwys Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i gynnal ac i wella bioamrywiaeth ac i annog cryfder ecosystemau. Tra bod ein safleoedd a'r rhywogaethau a warchodir yn bwysig, mae gofynion Adran 6 yn ymwneud â chymryd camau i warchod natur yn ein trefi, dinasoedd, mannau cyhoeddus a'r dirwedd ehangach, drwy weithredu ymarferol, ac yn y modd y mae'r holl weithredoedd cyhoeddus yn cael eu trefnu.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol, sef y 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur' yn 2015 oedd yn amlinellu'r ymrwymiad i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru, a'r amcanion ar gyfer gweithredu. Mae'n cynnwys 6 amcan ar gyfer adferiad natur yng Nghymru:

**Amcan 1**: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

**Amcan 2**: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

**Amcan 3**: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

**Amcan 4**: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

**Amcan 5**: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

**Amcan 6**: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd Adran 6 mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi cynllun eu hunain yn amlinellu'r hyn maent yn bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac annog gwytnwch. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai cyrff cyhoeddus ystyried seilio eu cynllun dyletswydd Adran 6 hwythau ar y Cynllun Gweithredu Adfer Natur cenedlaethol.

Mae Cyngor Gwynedd wrthi'n datblygu Cynllun Adfer Natur diwygiedig, ond yn y cyfamser rydym hefyd wedi cynnwys gwybodaeth berthnasol yn y CAHN. Tra fod gwarchod natur a bioamrywiaeth wedi ei wau drwy'r CAHN cyfan mae'r adrannau Defnydd Tir ac Ecoleg yn rhestru'r prosiectau fydd yn canolbwyntio'n benodol ar y gwaith hwn.

Ar ddiwedd pob adran o'r adroddiad blynyddol hwn fe welwch ddisgrifiad o sut y mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni yn cyfrannu at wireddu un neu fwy o'r 6 amcan uchod, sydd yn ei dro yn cydymffurfio ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Dyma grynodeb o'r cysylltiad rhwng prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ac Amcanion Adran 6:

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

| | Amcan 1 | Amcan 2 | Amcan 3 | Amcan 4 | Amcan 5 | Amcan 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adeiladau ac Ynni | | | | | ✓ | |
| Symud a Thrafnidiaeth | | | ✓ | | | |
| Gwastraff | ✓ | | | ✓ | | |
| Llywodraethu | ✓ | | | | | ✓ |
| Caffael | | | | | ✓ | ✓ |
| Defnydd Tir | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Ecoleg | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |


Tud. 48

# 4. Cyrraedd y Sefyllfa Bresennol

Cyn bodolaeth y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur mae'r Cyngor eisoes wedi bod yn gweithredu ers blynyddoedd i geisio lleihau ein ôl troed carbon. Cyhoeddwyd y Cynllun Rheoli Carbon 1 yn 2010 a Chynllun Rheoli Carbon 2 yn 2015.

Llwyddwyd i gyflawni gostyngiadau sylweddol yn yr allyriadau carbon a gynhyrchir o'n gweithgaredd dydd i ddydd. Drwy fuddsoddi oddeutu £8m mewn mesurau lleihau defnydd ynni dros y ddegawd diwethaf bu i ni lwyddo i leihau ein allyriadau carbon 59% yn y meysydd adeiladau, teithio busnes, goleuadau stryd, fflyd a gwastraff.

Gellir gweld y gostyngiad fesul maes yn y graff isod a teg dweud fod ein hymdrechion wedi arwain at gydnabyddiaeth genedlaethol sawl tro:





## Mesur ein Allyriadau Carbon


Pan oedd y cyngor yn gweithredu Cynlluniau Rheoli Carbon 1 a 2 roeddem yn dilyn dulliau mesur allyriadau carbon cydnabyddedig y Carbon Trust, ac yn mesur cynnydd mewn 5 maes fel mae'r siart uchod yn ddangos. Bellach, rydym yn dilyn methodoleg mesur allyriadau sydd wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru ac mae amrywiadau bychan rhwng y ddwy drefn felly wrth greu'r CAHN rydym wedi defnyddio data blwyddyn 2019/20 fel gwaelodlin newydd.

Rydym bellach hefyd yn mesur ein allyriadau carbon mewn meysydd ychwanegol – caffael, cymudo staff, a gweithio o gartref (ers 2021/22). Rydym hefyd yn mesur faint o garbon y mae ein tiroedd yn ei amsugno, ac wrth wrthbwyso'r ffigwr hwnnw yn erbyn cyfanswm yr allyriadau fe gawn ffigwr net, sef y bwlch i gyrraedd sero net. Ein bwlch i sero net yn 2022/23 oedd 17,695 $tCO_2e$.







Mae'r fethodoleg o fesur allyriadau carbon sy'n deillio o'n prosesau caffael yn amherffaith gan ei fod yn seiliedig ar faint o arian yr ydym yn ei wario. Po fwyaf yr ydym yn ei wario po fwyaf yw'r allyriadau. Oherwydd y gall y data caffael greu darlun amherffaith, mae'r siart isod yn cyflwyno data ar gyfer y 7 pennawd sy'n weddill ar ôl diystyru caffael.





## Ble ydym ni ar y daith o gyrraedd sero net erbyn 2030, ac ydi data 2022/23 yn dangos ein bod ar y trywydd cywir?

Mae'r graff isod yn dangos gostyngiad o 20% yn ein allyriadau caffael rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2022/23. Mae hefyd yn dangos gostyngiad o 34% rhwng 2021/22 a 2022/23 ond er ein bod wedi ymdrechu i gefnogi ein cyflenwyr i leihau eu allyriadau carbon mae'n deg dweud mai newidiadau bychan yn y dulliau mesur sy'n cyfri'n bennaf am y cwymp.




Nodwyd eisoes bod y data ar gyfer allyriadau caffael yn gallu creu darlun amherffaith, ac felly mae'r siart isod yn dangos bod cwymp o 37% yn yr allyriadau ar gyfer y 7 maes arall rhwng 2019/20 a 2022/23.




Y ddau faes sydd wedi gweld cynnydd yn 2022/23 ar y flwyddyn flaenorol yw fflyd a theithio busnes, er mae'r allyriadau yn dal yn is na 2019/20. Roedd rhai cyfyngiadau teithio yn dal mewn grym yn 2021/22 oherwydd Covid-19, ac felly mae'r twf hwn yn seiliedig ar gynnydd mewn niferoedd y teithiau erbyn 2022/23. Rydym bellach wedi cychwyn gweithredu ein Cynllun Fflyd Werdd ar ddiwedd 2022/23 er mwyn rhesymoli maint ein fflyd a pharhau ei drosi i gerbydau trydan. Bydd y gwaith hwn yn ei dro yn dylanwadu ar ein arferion teithio fel staff ac aelodau etholedig gan ein bod hefyd yn adolygu ein defnydd o geir pŵl.

## Strategaeth Llifogydd Lleol

Mae newid yn ein hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar lifogydd a graddfeydd erydiad tiroedd oherwydd bod lefelau moroedd yn codi a stormydd a chyfnodau o law trwm yn mynd yn fwy dwys ac yn digwydd yn fwy rheolaidd.

Mae rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru yn golygu llawer mwy nag adeiladu amddiffynfeydd. Mae ein dull o reoli risg yn annog gwydnwch ehangach, gwaith atal ac ymwybyddiaeth o risg fel bod modd gwneud penderfyniadau gwell, gan y cyhoedd a'r rhai sy'n dylanwadu ar sut y rheolir tir a dŵr.

Mae Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yn un o ofynion y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ac mae'n rhaid iddynt fod yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol a gyhoeddwyd y llynedd. Mae gofyn i ni adolygu Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yng Nghymru (ers y rhai gwreiddiol yn 2013) er mwyn cyd-fynd ag amcanion, mesurau, pholisïau a deddfwriaeth gysylltiedig y Strategaeth Genedlaethol newydd.

Rydym angen cwblhau'r dasg yma erbyn Gwanwyn 2024.

# 5. Adeiladau ac Ynni

Mae'r allyriadau carbon o adeiladau ac ynni yn 2022/23 yn 46% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael), sy'n 18% o ostyngiad ers 2019/20.

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23?

### Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

1. Anelu am fuddion tymor hir wrth gynllunio gwaith adeiladu neu adnewyddu adeiladau.
2. Dadgarboneiddio cyflenwad ynni'r cyngor.
3. Defnyddio dulliau adeiladu carbon isel *Passivhaus* wrth ddatblygu ein cynllun peilot tai arloesol.
4. Cynnig cyngor a gwybodaeth i drigolion Gwynedd am fanteision a chyfleoedd i ddefnyddio dulliau adeiladu carbon isel wrth adeiladu cartrefi a systemau gwresogi/ynni carbon isel i gynnal cartref.
5. Gosod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i wresogi adeilad.
6. Uwchraddio goleuadau stryd ac arwyddion traffig er mwyn defnyddio llai o ynni.
7. Gwella'r isadeiledd ynni yng Ngwynedd a gogledd Cymru er mwyn cynnal systemau ynni a thrafnidiaeth carbon isel.

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 1** –Mae'r gwaith o wella ffabrig adeiladau er mwyn eu gwneud mor effeithlon o ran ynni (prosiectau 1, 9 & 14) yn waith parhaus sydd wedi bod ar y gweill gennym fel cyngor ers dros ddegawd. Roedd y gwaith hwn wedi parhau yn ystod 2022/23, yn ogystal ag archwilio os fydd angen gwneud unrhyw waith newydd i'r dyfodol.

**Prosiect 2 a 7** - Ar ddiwedd 2022/23 fe gychwynnodd y cyngor y broses o lunio Cynllun Ynni Lleol, ac mae'n waith sy'n cael ei arwain gan Uchelgais Gogledd Cymru a chwmni ARUP. Bwriad y Cynllun Ynni Lleol yw creu system ynni carbon isel integredig ar gyfer Gwynedd, gan wella'r isadeiledd presennol fydd yn ei dro yn cefnogi pob sector i drawsnewid eu defnydd presennol o ynni. Mae'r gwaith yn parhau drwy gydol 2023/24 gyda'r nod o gwblhau'r cynllun erbyn diwedd Mawrth 2024.

**Prosiect 3** – Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu yn ystod 2023/24.

**Prosiect 4** - Rydym yn cynnig cymorth a chyngor i drigolion Gwynedd ar sut i arbed ynni ac arian drwy'r cynlluniau Nyth ac Eco 4. Mae ein swyddogion wedi bod yn cynnal sesiynau gwybodaeth wyneb yn wyneb yn ein cymunedau yn ogystal ag ateb ymholiadau drwy'r wefan neu dros y ffôn. Gweler hefyd adroddiad ar Prosiect 1.

**Prosiect 5** - Mae gennym systemau canolog ar gyfer rheoli gwres mewn ystafelloedd unigol felly nid ydym yn gweld yr angen i symud ymlaen i osod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol ar hyn o bryd. Fe all yr angen hwn newid i'r dyfodol os fydd y prosiect Rhyngrwyd y Pethau (o fewn y Cynllun Digidol) yn dangos bod gwerth ychwanegol i newid y drefn bresennol.

**Prosiect 6** - Ers cychwyn y prosiect i gyfnewid lampau stryd i oleuadau LED yn 2016/17, mae 17,811 o lampau wedi eu newid erbyn diwedd 2022/23. Rhwng dechrau'r cynllun yn 2016/17 a diwedd 2022/23 gwelwyd ostyngiad o 50% yn ein defnydd o ynni ac 81% o ostyngiad mewn allyriadau carbon.

## Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

8. Arbed 5% o allyriadau carbon o adeiladau drwy ddod â hwy i safon 'arfer dda' CIBSE.
9. Lleihau ein allyriadau carbon drwy ehangu ein defnydd o baneli solar i greu ynni adnewyddadwy.
10. Trydaneiddio systemau gwresogi adeiladau er mwyn lleihau allyriadau carbon.
11. Gosod ffaniau awyru EC (*electronically commutated*) mewn adeiladau er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i'w rhedeg o'i gymharu â ffaniau arferol.
12. Uwchraddio goleuadau arbenigol mewn canolfannau hamdden er mwyn defnyddio llai o ynni.

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 9** - Yn ystod 2022/23 fe wnaeth Cabinet y cyngor gytuno i neilltuo £2.8m er mwyn cyflawni Gwedd 4 o gynllun i osod paneli solar PV ar eiddo'r cyngor er mwyn cynhyrchu trydan fydd yn arwain at arbedion ariannol yn ogystal â lleihau allyriadau carbon. Aethpwyd ymlaen i gynllunio'r tendr ac mae'r gwaith wedi cychwyn yn ystod 2023/24. Gweler hefyd adroddiad ar Prosiect 1.

## Blaenoriaethau Tymor Hir 2022/23 – 2029/30

13. Cynyddu ein 'credyd' carbon drwy osod ffermydd solar er mwyn cynhyrchu ynni y gall y Cyngor ei ddefnyddio neu ei werthu.

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 13** – Nid yw'r prosiect yma'n flaenoriaeth ar hyn o bryd gan fod y costau ariannol o gysylltu â'r grid cenedlaethol mor uchel, ac oherwydd na fedr y Cyngor, o dan drefniadau adrodd data presennol, hawlio'r 'credyd carbon' ar unrhyw drydan a gynhyrchir.

## Blaenoriaethau Parhaus

14. Gwella ffabrig adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn eu gwneud mor effeithlon o ran ynni a phosibl.
15. Rhwystro gor-ddatblygu cynlluniau ynni tanwydd ffosiledig.

16. Uchafu i'r eithaf y buddion a ddaw o weithredu ein polisïau ynni a gwresogi.
17. Offer a ddefnyddir o fewn adeiladau'r cyngor i fod mor effeithlon o ran ynni a phosibl.

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Wedi cryn ddifrod gan dân fe fanteiswyd ar y cyfle i ail osod cuddfan gwylio adar bwrpasol ar lan y Fenai, ger Caernarfon. Mae'r guddfan newydd wedi ei chreu drwy ailgylchu ac ail gynllunio hen gludydd llong (*shipping container*) a'i osod mewn safle priodol sy'n hygyrch i bawb er mwyn medru mwynhau golygfeydd godidog tiroedd rhyng-lanw y Fenai.

# 6. Symud a Thrafnidiaeth

Mae'r allyriadau carbon o fflyd y cyngor yn 2022/23 yn 24% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 3.5% o ostyngiad ers 2019/20. Mae'r allyriadau carbon o gymudo staff yn 2022/23 yn 17% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 35.5% o ostyngiad ers 2019/20. Mae'r allyriadau carbon o deithio busnes yn 2022/23 yn 6% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 37% o ostyngiad ers 2019/20.

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23?

### Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

1. Symud oddi wrth defnyddio cerbydau tanwydd ffosil tuag at fflyd o gerbydau (ceir a faniau) ULEV (*ultra low emission vehicles*).
2. Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer cerbydau'r cyngor
3. Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer trigolion Gwynedd
4. Lleihau teithio busnes
5. Lleihau allyriadau carbon a phroblemau parcio mewn ardaloedd sy'n boblogaidd ymysg ymwelwyr

### Be wnaethom ni?

**Prosiectau 1 a 2** – Bu cryn oedi wrth brynu cerbydau trydan newydd yn ystod 2022/23 oherwydd problemau cyflenwi ar y farchnad ryngwladol, ond erbyn diwedd y flwyddyn roedd gan y cyngor 15 cerbyd trydan ar draws ein fflyd. Roedd y rhain yn cael eu cynnal gan 23 pwynt gwefru at ddefnydd y fflyd ar draws 8 safle sy'n eiddo i'r cyngor. Fe ddylai trawsnewid i gerbydau trydan leihau yr allyriadau carbon o'n fflyd gan tua 66%.

**Prosiect 3** - Erbyn diwedd 2022/23 roedd gan y cyngor 16 pwynt gwefru i'r cyhoedd yn weithredol mewn 4 lleoliad (Bangor, Pwllheli, Y Bala a Dolgellau), ac roedd 1 pwynt gwefru ychwanegol yn Y Bala yn cael ei reoli gan Trafnidiaeth i Gymru. Rydym fel cyngor yn cydweithio â Thrafnidiaeth i Gymru a Pharc Cenedlaethol Eryri wrth gynllunio lleoliadau pwyntiau gwefru cyhoeddus. Roedd nifer llawer uwch o beiriannau wedi eu gosod, ond yn aros i'r cysylltiad trydan gael ei awdurdodi. Mae ein rhaglen bresennol i osod cyfanswm o 114 pwynt gwefru cyhoeddus yn parhau yn ystod 2023/24 a byddwn yn ei hadolygu wrth asesu anghenion y dyfodol.

**Prosiect 4** - Newidiodd lawer o arferion gweithio yn ystod cyfnod Covid-19 ond un arfer sydd wedi parhau gennym yn y cyngor yw cynnal cyfarfodydd mewnol a chyhoeddus yn rhithiol, gan leihau'n sylweddol yr angen i deithio i ganolfannau gwaith. Mae pob un o brif gyfarfodydd y cyngor – Cyngor Llawn, Cabinet, Craffu, Cynllunio

– yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol ac mewn person, ac mae hyn wedi lleihau ein allyriadau o deithio busnes. Wrth i ni gychwyn gweithredu ein Cynllun Fflyd Werdd rydym hefyd wedi dechrau herio'r angen am deithiau busnes, ond bydd newid arferion yn y maes hwn yn digwydd dros y blynyddoedd nesaf.

**Prosiect 5** - Un o lwyddiannau mawr 2022/23 oedd cyflwyno'r gwasanaeth bysiau Sherpa'r Wyddfa, sef rhwydwaith o wasanaethau bws o amgylch dalgylch yr Wyddfa. Mae'r cyngor yn un o'r partneriaid fu'n datblygu'r ddarpariaeth, a'i nod yw cynyddu opsiynau teithio llesol a lleihau'r problemau parcio mewn mannau poblogaidd yn Eryri. Bydd hyn yn lleihau nifer a phellter siwrneiau mewn ceir personol gan leihau allyriadau carbon Gwynedd fel sir.

## Blaenoriaethau Tymor Hir 2022/23 – 2029/30

6. Bod ag opsiynau tanwydd carbon isel neu ddi-garbon ar gyfer fflyd trwm y cyngor

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 6 -** Mae trosi'r fflyd o gerbydau trwm i fod yn defnyddio trydan neu hydrogen yn broses hir dymor, ond mae swyddogion y cyngor yn cydweithio ag Uchelgais Gogledd Cymru ar eu prosiect Hwb Hydrogen a gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn rhannu datblygiadau newydd ac arfer dda ymysg awdurdodau lleol.

## Blaenoriaethau Parhaus

7. Lleihau allyriadau carbon drwy arferion cymudo staff
8. Annog teithio llesol ymysg staff – er budd iechyd a lles ac i leihau allyriadau carbon
9. Annog teithio llesol ymysg trigolion ac ymwelwyr i Wynedd er mwyn gwella lles corfforol a meddyliol a lleihau allyriadau carbon teithiau ceir byr
10. Cynyddu'r cyfleoedd i fudiadau cymunedol gael mynediad at gerbydau EV neu ULEV neu ddefnyddio technoleg carbon isel

### Be wnaethom ni?

**Prosiectau 7 ac 8 -** Mae gan y cyngor Gynllun Ceir Gwyrdd a Chynllun Beics Gwyrdd ar gael i'r rhan fwyaf o staff, sef cynlluniau aberthu cyflog er mwyn prynu car neu feic trydan newydd. Rydym wedi bod yn annog staff i gymryd mantais llawn o'r cyfleoedd yma, gan gynnal sawl diwrnod agored er mwyn treialu beiciau trydan. Mae cyfanswm o 376 beic a 128 car trydan neu hybrid wedi eu prynu gan ein staff ers cychwyn y cynllun yn 2013/14.

Rydym hefyd wedi bod yn ymchwilio i'r opsiynau cymudo eraill all fod ar gael i staff, ar wahân i deithio'n unigol mewn car petrol/disel. Byddwn yn datblygu a hyrwyddo'r cynlluniau yma fwyfwy i'r dyfodol.

**Prosiect 9** – gweler Prosiect 5 uchod.

**Prosiect 10** - Mae'r pwynt gwefru ar gyfer fflyd y cyngor yn ei faes parcio yng Nghaernarfon hefyd yn cael ei ddefnyddio drwy

gytundeb i wefru car trydan cymunedol o dan ofal y fenter gymdeithasol Deg/Co-wheels.

### Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae’r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi’u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Mae Prosiectau 5, 8 a 9 uchod yn rhedeg ochr yn ochr a gwaith y Cyngor i gynnal hawliau tramwy cyhoeddus, ac i gynnal a chadw tiroedd. Tra’n gofalu am rwydwaith o lonydd glas, llwybrau beicio a cherdded y sir rydym wedi bod gwarchod ymylon llwybrau a ffyrdd er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth.

Mabwysiadwyd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gan Gabinet Cyngor Gwynedd ar y 22ain o Dachwedd 2022. Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am rwydwaith Hawliau Tramwy sydd oddeutu 3,800km o hyd ac yn agored i gerddwyr, marchogwyr, beicwyr, ceffyl a throl a cherbydau modur.

Sefydlwyd cynllun hynod lwyddiannus, sef Cynllun Dolydd Blodau Gwyllt Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd dalgylch Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, er mwyn sefydlu rhwydwaith o gynefinoedd blodau gwyllt ac ochr llwybrau cerdded a ffyrdd yr ardal. Bu’r Gwasanaeth Cynnal Tiroedd hefyd yn treialu trefn newydd o ran amlder torri a chasglu gwair.

# 7. Gwastraff

Mae'r allyriadau carbon o wastraff y cyngor yn 2022/23 yn 1% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 96% o ostyngiad ers 2019/20.

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23?

### Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

1. Hyrwyddo economi gylchol er mwyn lleihau nifer yr eitemau sy'n cael eu gwaredu a lleihau allyriadau carbon yn y gadwyn gyflenwi o brynu nwyddau newydd
2. Lleihau'r gwastraff stryd sy'n mynd i'w waredu a chynyddu'r gwastraff stryd sy'n cael ei ailgylchu
3. Lleihau defnydd papur

#### Be wnaethom ni?

**Prosiectau 1, 4, 5 a 6** - Bu 2022/23 yn flwyddyn brysur i'n tîm cefnogi busnesau wrth iddynt gydweithio gyda nifer o fusnesau a mentrau cymdeithasol ar draws Gwynedd a Môn er mwyn ymgeisio am grantiau gan Llywodraeth Cymru er mwyn ymestyn y ddarpariaeth bresennol yn y maes economi gylchol. Ein nod yw annog pobl i ailddefnyddio neu drwsio nwyddau er mwyn lleihau allyriadau carbon fyddai'n deillo o greu eitemau newydd neu waredu gwastraff. Rydym yn parhau i aros am ddyfarniad terfynol ond yn y cyfamser rydym yn hyrwyddo a chefnogi gwaith ein partneriaid – Antur Waunfawr, Partneriaeth Ogwen, Siop Griffiths, Adra (Tŷ Gwyrddfai), BIC Innovation, Menter Môn, MSParc. Mae gwaith mudiadau cymunedol eraill megis GwyrddNi hefyd yn bwysig ac yn gyfraniad gwerthfawr at ymrymuso cymunedau.

**Prosiect 2** – Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom barhau i osod biniau cyhoeddus sy'n derbyn deunyddiau i'w ailgylchu, ble mae bin unigol gwahanol ar gyfer gwahanol deunyddiau. Gosodwyd 8 set o 4 bin a 7 set o 3 bin mewn 11 leoliad yn ystod 2022/23. Rhaglen waith barhaus yw hon, a bydd rhagor o finiau ailgylchu yn cael eu gosod dros y blynyddoedd nesaf

**Prosiect 3** - Buom yn adolygu ein defnydd mewnol o bapur yn swyddfeydd y cyngor yn ystod y flwyddyn, ac roedd y galonogol bod y defnydd wedi parhau llawer yn is nag yr oedd cyn cyfnod Covid-19. Mae'r asesiad hwn wedi arwain at newid arferion argraffu, ac erbyn 2023/24 ni fyddwn yn argraffu papurau ar gyfer cyfarfodydd oni bai bod yna eithriad rhesymol dros wneud.

### Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

4. Lleihau'r nifer o eitemau sy'n cyrraedd safleoedd llosgi gwastraff drwy annog pobl i drwsio ac ail-ddefnyddio (Caffis Trwsio)

### Be wnaethom ni?

Gweler Prosiect 1 uchod.

## Blaenoriaethau Parhaus

5. Trwsio ac addasu offer a fyddai fel arall yn cael ei waredu a'i losgi, a'i werthu
6. Lleihau gwastraff bwyd drwy gefnogi prosiectau cymunedol sy'n ceisio ail ddosbarthu bwyd fyddai fel arall yn cael ei daflu

### Be wnaethom ni?

Gweler Prosiect 1 uchod.

### Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Wrth ddatblygu'r cynlluniau sy'n rhan o'r cais grant i hyrwyddo economi gylchol fe fuom yn ymgynghori'n barhaus gyda'n holl bartneriaid cymunedol, ac mae swyddogion ar sawl lefel o fewn y cyngor wedi bod yn ystyried effaith y prosiect ar fioamrywiaeth cyn datblygu'r cynllun terfynol.

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Mae blaenoriaethau 4, 5 a 6 uchod yn cyfrannu at amcanion 2, 3 a 4 gan fod ein hybiau bwyd a gerddi cymunedol wedi asesu eu dylanwad ar fioamrywiaeth, a'u datblygu mewn modd na fydd yn niweidio'r amgylchedd o'u cwmpas.

# 8. Llywodraethu

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23?

### Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

1. Rhannu gwybodaeth yn gyhoeddus am y gwaith y mae'r cyngor yn ei wneud i leihau allyriadau carbon er mwyn annog eraill i newid arferion
2. Cefnogi cymunedau i gynllunio a darparu atebion lleol i anghenion lleol

#### Be wnaethom ni?

**Prosiect 1** - Mae prinder adnoddau wedi golygu ein bod wedi blaenoriaethu amser ac adnoddau ar leihau yr allyriadau carbon sy'n deillio'n uniongyrchol o'n gweithgarwch ni ein hunain fel Cyngor yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur. Nid yw hyn wedi golygu, er hynny, nad ydym wedi bod yn ymgysylltu a chefnogi ein cymunedau a'n trigolion er mwyn i bawb chwarae ei ran ar y daith i sero net.

Mae'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd drwy'r cynllun Ardal Ni wedi amlygu bod materion hinsawdd a natur o flaenoriaeth uchel i drigolion ymhob ardal, ac rydym yn parhau i gefnogi'r cymunedau gyda'u cynlluniau gweithredu. Bu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn hefyd yn ymgynghori â chymunedau yn ystod y flwyddyn, ac mae'r gwaith hwnnw wedi arwain at lunio Cynllun Llesiant newydd sydd wedi dod i rym yn ystod 2023/24. Un o 3 Amcan Llesiant y cynllun newydd yw "Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon".

Gweler hefyd yr adroddiad o dan 'Gwastraff'.

**Prosiectau 1 a 2** - Mae ein prosiectau eraill ninnau fel cyngor hefyd yn cyfrannu at helpu a dylanwadu ar arferion trigolion – Cymunedau Glan a Thaclus, cefnogi hybiau bwyd, Ffiws/Caffi Trwsio, sioeau teithiol arbed ynni.

### Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

3. Aelodau etholedig a staff sydd:
   - yn deall oblygiadau effaith newid hinsawdd
   - yn cymryd penderfyniadau ar sail gwybodaeth am yr effeithiau
   - yn gweithredu yn y modd mwyaf cadarnhaol posib tuag at liniaru effaith newid hinsawdd a bod yn ecolegol gadarnhaol

#### Be wnaethom ni?

**Prosiect 3** - Buom yn cynllunio ein anghenion hyfforddiant yn ystod 2022/23, ac mae hyfforddiant llythrennedd carbon wedi ei gynnal yn ystod 2023/24.

## Blaenoriaethau Parhaus

4. Annog staff i ddatblygu gyrfa mewn meysydd sy'n lleihau effaith newid hinsawdd neu'n ecolegol gadarnhaol
5. Adolygu polisïau a strategaethau presennol y cyngor fel bod lleihau allyriadau carbon neu leihau effaith newid hinsawdd yn ffactor wrth ddod i benderfyniad

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 5** - Mae'r gwaith hyd yma o adolygu polisïau a strategaethau wedi amlygu bod angen addysgu a hyfforddi staff ac aelodau er mwyn deall a gweithredu newidiadau i'r polisïau hynny. Mae'r hyfforddiant hwnnw wedi ei roi ar waith fel rhan o Brosiect 3.

### Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Gwaith wedi cael ei wneud gyda Chynghorau Tref a Chymuned i roi gwybod iddynt am eu dyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni o dan blaenoriaethau 3 a 5 yn cyfrannu at wireddu Amcanion 1 a 6.

.

# 9. Caffael

Roedd 61% o allyriadau carbon y cyngor yn ystod 2022/23 yn deillio o'n prosesau caffael, oedd yn ostyngiad ers y flwyddyn flaenorol ble roedd y cyfanswm yn 72%. Mae'n rhaid cydnabod mai newidiadau mewn dulliau cyfrifo sy'n bennaf gyfrifol am y gostyngiad hwn, ond buom hefyd yn parhau i gefnogi ein cyflenwyr ar eu taith hwythau i fod yn sero net drwy hyrwyddo gwasanaethau Busnes Cymru a chynnig cyngor ein hunain.

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23?

## Blaenoriaethau Parhaus

1. Darparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i fedru mesur effaith eu gweithrediadau ar eu ôl troed carbon
2. Deall a mesur allyriadau carbon wrth wireddu contractau yn y gadwyn caffael

### Be wnaethom ni?

**Prosiectau 1 a 2** - Ar ddiwedd 2022/23 fe gyhoeddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru adroddiad a phecyn cymorth at ddefnydd awdurdodau lleol er mwyn iddynt geisio ymgorffori caffael cynaliadwy ymhellach i arferion dyddiol. Bu cryn aros am y pecyn fel adnodd fyddai'n gymorth i ni fel cyngor fesur yr allyriadau carbon sy'n deillio o'r gwasanaethau a'r deunyddiau yr ydym yn eu prynu, ac mae'n gam cychwynnol ar y daith honno.

Yn dilyn cyhoeddi'r pecyn cymorth rydym bellach yn cydweithio â WRAP Cymru er mwyn adolygu ein Polisi Caffael Cynaliadwy ac i ymchwilio i gymorth pellach er mwyn lleihau allyriadau ein cytundebau mwyaf o ran gwerth ariannol (megis bwyd a gofal).

### Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Wrth i ni adolygu ein Polisi Caffael Cynaliadwy, a derbyn cyngor gan WRAP Cymru ar sut y gallwn leihau allyriadau carbon drwy'r cytundebau y byddwn yn eu gosod, byddwn yn adolygu'r canllawiau presennol i gyflenwyr ar sut y gallant warchod a hyrwyddo bioamrywiaeth.

# 10. Defnydd Tir

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23?

### Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

1. Adnabod cyfraniad coed sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd
2. Adnabod cyfraniad tiroedd sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd
3. Sefydlu meithrinfeydd coed er mwyn tyfu coed yn barod i'w plannu
4. Adnabod cyfleon i blannu coed fel rhan o fenter Coedwig Genedlaethol Cymru
5. Gwarchod tir amaethyddol yng Ngwynedd a'i ddefnyddio i bwrpas cymwys, a rheoli prosiectau coedwigo

#### Be wnaethom ni?

**Prosiect 1 a 7 -** Yn ystod 2022/23 buom yn gwneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar 8 safle o goetir sy'n eiddo i'r Cyngor, ac yn hyfforddi'n staff i ddefnyddio'r offer diweddaraf i fesur cyfaint coed er mwyn mesur eu gwerth carbon. Plannwyd coed newydd ar 4 allan o'r 8 safle.

**Prosiect 2** – Bu aros eiddgar am becyn cymorth newydd sy'n cael ei ddatblygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn mesur gwerth carbon mewn gwahanol diroedd. Fe'i cyhoeddwyd fis Tachwedd 2023, a bydd yn gymorth i ni nid yn unig er mwyn mesur capasiti amsugno carbon ein gwahanol diroedd ond hefyd i gynllunio defnydd ein tiroedd i'r dyfodol.

**Prosiect 3** - Yn ogystal â'r coetiroedd sy'n rhan o Brosiect 1, rydym hefyd wedi plannu neu ail-blannu coed ar strydoedd ym Mhwllheli, Porthmadog, Tremadog a Chricieth. Bydd angen parhau gyda thrafodaethau â phartneriaid er mwyn asesu potensial i sefydlu meithrinfeydd coed.

**Prosiect 4** - Mae cais wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn i safle Parc Dudley yn y Waunfawr dderbyn cydnabyddiaeth fel safle Coedwig Genedlaethol Cymru.

### Blaenoriaethau Parhaus

6. Rheoli Clwy yr Onnen mewn coed a gwneud yn iawn am unrhyw allyriadau carbon fyddai'n ganlyniad i dorri coed
7. Bod coedlannau sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael eu gwarchod er mwyn gwneud y gorau o'u potensial i amsugno carbon a bod yn gynefinoedd i fyd natur

#### Be wnaethom ni?

**Prosiect 6** - Yn anffodus mae'r galw i ymdrin â nifer gynyddol o goed sy'n dioddef o Glwy yr Onnen yn rhoi rhagor o bwysau ar ein

adnoddau prin. Er hynny, rydym yn parhau i ymateb i achosion sy'n codi ac yn mapio ble y mae'n bosib i ail blannu.

**Prosiect 7** – Gweler Prosiect 1 uchod.

### Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Yn dilyn ymholiadau gan Gynghorau Tref fe wnaeth y Bartneriaeth Natur eu cynorthwyo efo darparu prosiectau a fyddai yn eu galluogi i gydymffurfio efo gofynion Adran 6, Dyletswyddau Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Llywodraeth Cymru.

Plannwyd coedlannau newydd efo cymorth ysgolion lleol, crëwyd perllannau newydd ac fe gafodd darnau helaeth o laswelltiroedd eu troi yn gynefinoedd er budd bioamrywiaeth.

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Mae Cyfeillion Wern Mynach yn griw hynod o weithgar sy'n cynnal a gwarchod darn o dir ar gyrion tref Abermaw. Darn o dir a oedd eisoes yn hen safle gwastraff, ond bellach gyda gwaith caled y gwirfoddolwyr mae'r safle wedi ei weddnewid er budd bioamrywiaeth a'r gymuned.

Mae yna wastad '*rhywbeth yn digwydd'* yn Wern Mynach a gyda buddsoddiad gan y Bartneriaeth Natur cafwyd cyfle i ddatblygu'r safle ymhellach drwy greu pwll dŵr ac ardal wlyb er gyfer ymlusgiaid a pheillwyr ynghyd â gweithgareddau plannu ac addysgu. Mae wastad yn bleser cydweithio efo'r criw gan eu bod mor frwdfrydig am eu gwaith ac hefyd yn cyfrannu cymaint i'r gymuned leol.

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Mae gwirfoddolwyr Gardd Gymunedol yr Heliwr yn Nefyn wedi bod wrthi yn trawsnewid darn o dir a oedd wedi ei 'lygru' gan rywogaethau ymledol i fod yn gyrchfan boblogaidd i'r gymuned leol. Wrth ddod at ei gilydd i rannu cyfeillgarwch mae llu o wirfoddolwyr wedi creu gardd brysur a phoblogaidd lle y tyfir amrywiaeth o lysiau a chnydau, ac y mae hefyd yn adnodd hwylus o ran mynediad lle y cynhelir nifer o weithdai ar y safle er budd iechyd a lles trigolion lleol.

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Mae pob un o'r blaenoriaethau uchod yn cyfrannu at Amcanion 2, 3 a 4.

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Mae ein gwaith ar flaenoriaeth 6 yn tynnu ar dystiolaeth a chofnodion, ond mae'r holl waith cynnal coetiroedd yn seiliedig ar dystiolaeth a monitro rheolaidd.

# 11. Ecoleg

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23?

### Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

1. Adnabod y camau sydd angen i ni eu cymryd er mwyn gwarchod cynefinoedd natur a bioamrywiaeth i'r dyfodol
2. Adnabod ein rhywogaethau a'n cynefinoedd gwerthfawr a pha fesurau sydd eu hangen i'w gwarchod a'u hadfer

### Be wnaethom ni?

**Prosiectau 1 a 2** - Fe wnaethom agor ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2022/23 er mwyn canfod barn trigolion Gwynedd am fyd natur o'u cwmpas a'r mynediad sydd ganddynt i'r amgylchedd naturiol yn lleol. Fe wnaeth canlyniadau'r ymgynghoriad ein helpu i lunio ein Cynllun Adfer Natur diwygiedig, a bydd y cynllun hwnnw yn cael ei gyhoeddi yn ystod 2023/24. Ochr yn ochr â datblygu'r Cynllun Adfer Natur, rydym hefyd wedi bod yn asesu bioamrywiaeth y gwarchodfeydd natur yr ydym yn berchen arnynt er mwyn sefydlu gwaelodlin y gallwn fesur cynnydd neu ddirywiad yn ei erbyn.

### Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

3. Cynyddu nifer y peillwyr drwy warchod cynefinoedd neu blannu cynefinoedd newydd (safleoedd tirlenwi)
4. Cefnogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol a chynghorau tref a chymuned sy'n gwarchod neu'n hybu byd natur

### Be wnaethom ni?

**Prosiectau 3 a 6** - Mae yna ddau safle yng Ngwynedd arferai fod yn safleoedd tirlenwi sydd bellach wedi eu trosi yn safleoedd i warchod a hyrwyddo natur. Cafodd gwaith cynnal a chadw a phlannu coed ei wneud yn Llwyn Isaf ger Clynnog a Ffridd Rasus ger Harlech yn ystod y flwyddyn, ac mae ffrwyth y gwaith a wnaethpwyd yn ystod 2022/23 wedi dod yn amlwg erbyn haf 2023. Mae'r safle bellach yn amsugno mwy o garbon nag yr oedd cyn cael ei drawsnewid, ac mae'r coed a phlanhigion yn hafan i fyd natur. Mae'r ddwy safle hefyd wedi derbyn 'safon aur' gan Restor, yr hwb rhyngwladol ar gyfer adferiad natur.

**Prosiectau 3 a 5 -** Bu 2022/23 hefyd yn flwyddyn brysur iawn wrth i ni baratoi ein tiroedd am ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol i Lŷn fis Awst 2023. Fe gymerodd holl ysgolion cynradd bro'r Eisteddfod ran yn ein prosiect i blannu dolydd blodau gwyllt ac fe fu timoedd priffyrdd y Cyngor yn plannu dolydd blodau gwyllt ar hyd ymylon ffyrdd tuag at ardal Pwllheli, ac fe fyddwn yn parhau i asesu a chynnal y dolydd hyn i'r dyfodol.

## Blaenoriaethau Parhaus

5. Meithrin a chynnal diddordeb trigolion Gwynedd mewn materion ecolegol er mwyn iddynt fod eisiau helpu i warchod byd natur
6. Gwarchod cynefinoedd gwerthfawr i fyd natur

### Be wnaethom ni?

**Prosiectau 5 a 6 -** Mae'n waith parhaus i gadw a chynnal ein gwarchodfeydd natur, ond yn ystod 2022/23 buom yn uwchraddio'r cyfleusterau yn Morfa Madryn ger Llanfairfechan er mwyn gosod llwybrau mynediad hygyrch, sydd wedi agor y warchodfa i ragor o'n trigolion. Fe wnaethom hefyd osod cysgodfan gwylio adar newydd (o hen gynhwysydd llongau) yn y Foryd ger Caernarfon.

**Prosiect 6** – Gweler hefyd adroddiad Prosiect 3 uchod.

### Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Mae'r holl waith yr ydym fel Cyngor yn ymgymryd ag o drwy'r Bartneriaeth Natur Lleol yn cael ei gynllunio neu ei ddarparu ar y cyd â sefydliadau, cymunedau neu ysgolion lleol.

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Mae Cymdeithas Gwenynwyr Llŷn ac Eifionydd yn griw gweithgar sydd nid yn unig yn casglu mel o dros 100 o gychod gwenyn yn lleol ond hefyd yn gweithio yn galed i hyrwyddo rhywogaeth y Wenynen Ddu Gymreig yma yng Ngwynedd. Mae gan y gymdeithas bellach adnoddau newydd, gan gynnwys deunydd addysgol newydd, cychod gwenyn arddangos pwrpasol ac hefyd offer newydd er mwyn cynhyrchu mel o safon. Mi fydd hyn yn eu galluogi i hyrwyddo eu cymdeithas yn lleol, ynghyd â sicrhau fod rhywogaeth y Wenynen Ddu Gymreig yn cael ei diogelu a'i gwarchod yma yng Ngwynedd.

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Mae pob un o'r blaenoriaethau uchod yn cyfrannu at Amcanion 2, 3 a 4.

## 12. Camau Nesaf

### Ariannol

Mae chwyddiant yn effeithio ar gost cyfalaf pob cynllun buddsoddi ar hyn o bryd, ond mae hefyd yn golygu fod yr arbedion o leihau ein defnydd o ynni hefyd yn uwch. Er hyn, mae'n anodd iawn proffwydo beth fydd costau ynni o fis i fis, ac mae hynny'n wir am chwyddiant mewn costau cyfalaf hefyd. Yr hyn sydd yn glir ydi fod ein cyllidebau ein hunain wedi eu taro'n aruthrol gan amgylchiadau economaidd cenedlaethol a tebyg y bydd hynny'n ein gadael mewn sefyllfa lle bydd ein dyhead i fuddsoddi yn y maes hwn yn gorfod cystadlu yn erbyn ein dyletswyddau i ddarparu gwasanaethau craidd i drigolion Gwynedd.

### Ynni adnewyddol

Mae cynhyrchu ein ynni ein hunain nid yn unig yn golygu llai o ddibyniaeth ar ddefnyddio trydan o'r grid (sy'n annhebygol o fod yn garbon sero net am flynyddoedd maith, os o gwbl) ond hefyd yn cynnig ychydig o sicrwydd ynni i ni yn lleol. Yn anffodus, nid oes cydnabyddiaeth yn cael ei roi i ni fel sefydliad os ydym yn cynhyrchu trydan i'w allforio i'r grid ac nid ydym yn gallu hawlio'r credyd carbon amdano. Yn ogystal â hyn, mae'r isadeiledd yn wael ar gyfer anfon trydan i'r grid o ffynonellau adnewyddol yn yr ardal hon e.e. byddai angen buddsoddiad o filiynau o bunnoedd er mwyn gallu defnyddio rhai o'n tiroedd ar gyfer sefydlu ffermydd solar. Ar hyn o bryd, felly, nid yw cynhyrchu trydan ar raddfa fasnachol o ffynonellau adnewyddol am fod o gymorth i'n uchelgais i fod yn garbon sero.

Wedi dweud hynny, mae'r Cyngor, ar y cyd â phartneriaid sirol, yn datblygu Cynllun Ynni Ardal Lleol fydd yn gosod sylfaen i ddatblygu system ynni garbon isel i Wynedd er budd trigolion, diwydiant a thrafnidiaeth. Bydd rhaid aros i weld pa brosiectau fydd y cynllun yn eu argymell, a pha adnoddau fydd ar gael i'w gwireddu.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19 Rhagfyr 2023** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**2. Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3. CYFLWYNIAD**

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma ydi diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028; a lle mae'r mesurau perfformiad arni.

3.2 Hoffwn eich atgoffa bod y materion yma eisoes wedi eu trafod mewn cyfarfod rhyngof i, y Prif Weithredwr a chynrychiolaeth o uwch swyddogion yr Adran Amgylchedd fis Tachwedd, a bod cynrychiolaeth o Bwyllgor Craffu Cymunedau hefyd wedi mynychu cyfarfod perfformiad ym mis Medi.

3.3 Rwy'n fodlon gyda'r cynnydd hyd yma ar y prosiectau y mae'r Adran yn arwain arnynt yng Nghynllun y Cyngor ynghyd a gwaith swyddogion yr Adran yng ngwaith dydd i ddydd Gwasanaethau'r Adran Amgylchedd.

**4. BLAENORIAETHAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-2028**

Mae'r Adran yn arwain ar bump o flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028. Mae dau ym maes trafnidiaeth a bydd Pennaeth Cynorthwyol yn cychwyn gyda'r Adran ym mis Ionawr a fydd yn allweddol i gynorthwyo gyda'r gwaith o barhau i yrru'r blaenoriaethau penodol yma yn eu blaen. Crynhoir y cynnydd ym Mlaenoriaethau Cynllun y Cyngor isod:

**4.1 Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr**

4.1.1 Fel rhan o ymdrechion i gael gwell rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor-byr, mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar y gwaith o baratoi Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd.

4.1.2 Byddai gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn galluogi'r Cyngor i fynnu fod perchnogion eiddo yn Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn derbyn hawl cynllunio cyn newid defnydd eu heiddo yn ail gartref neu lety gwyliau tymor-byr.

4.1.3 Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori cyhoeddus am gyfnod o 6 wythnos, a ddaeth i ben ar 13 Medi. Derbyniwyd ymateb sylweddol i'r ymgynghoriad, ac mae'r gwaith yn parhau i ddadansoddi'r holl sylwadau a rhoi ystyriaeth deilwng i'r ymatebion a dderbyniwyd.

4.1.4 Yn dilyn y broses ddadansoddi, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad yn ystod misoedd cynnar 2024.

4.1.5 Mae'r gwaith yma yn ddigynsail, ac yn derbyn cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal Dwyfor o'r sir.

**4.2 Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

4.2.1 Bwriad cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd fydd cyfarch anghenion tai, cyflogaeth, cymdeithasol ac amgylcheddol trigolion y sir dros y 15 mlynedd nesaf.

4.2.2 Mae Gweithgor Polisi Cynllunio wedi ei sefydlu, er mwyn cefnogi'r broses o greu a chynnal y Cynllun Datblygu Lleol.

4.2.3 Ystyriwyd Cytundeb Cyflawni drafft y Cynllun Datblygu Lleol gan y Gweithgor. Yn dilyn cydsyniad y Cabinet, cynhaliwyd cyfnod o 6-wythnos o ymgynghori cyhoeddus ar y Cytundeb Cyflawni, sydd wedi dod i ben ar 7 Rhagfyr. Mae gwaith yn cychwyn i ystyried yr ymatebion.

4.2.4 Disgwylir y bydd adroddiad ar yr ymgynghoriad yn cael ei ystyried gan y Gweithgor Polisi Cynllunio ym mis Ionawr, cyn derbyn ystyriaeth y Cabinet ac yna'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2024.

**4.3 Gwastraff ac Ailgylchu**

4.3.1 Mae gwaith trawsnewid sylweddol yn digwydd ym maes gwastraff ac ailgylchu, er mwyn gosod sylfaen a gwydnwch i'r dyfodol wrth anelu at darged heriol Llywodraeth Cymru o ailgylchu 70% o'n gwastraff erbyn 2025.

4.3.2 Mae'r gwaith wedi bod yn canolbwyntio ar sicrhau cymhwysedd arweinyddion tîm, yn enwedig, sicrhau trefniadau dychwelyd i'r gwaith mwy effeithiol fel rhan o'r ymdrechion i wella lefelau salwch a dibyniaeth ar oramser. Mae strwythurau swyddfa gefn wedi gwella yng ngogledd y sir dros y misoedd diwethaf, gyda bwriad i ymestyn trefniadau tebyg i dde'r sir yn y flwyddyn newydd a fydd yn gwella gallu i ymdrin yn amserol i ymholiadau.

4.3.3 Gyda Rheoliadau Ailgylchu yn y gweithle yn dod i rym o fis Ebrill, mae gwaith yn digwydd i sicrhau fod trefniadau'r Gwasanaeth Gwastraff Masnachol yn barod ar gyfer y newid fydd yn effeithio ar holl gasglwyr gwastraff ac ailgylchu o fusnesau, elusennau a sefydliadau cyhoeddus.

4.3.4 Mae trafodaethau wedi cychwyn gyda Wrap Cymru a Llywodraeth Cymru i adolygu trefniadau a phrosesau trin gwastraff a sicrhau y bydd gan Wynedd gyfleusterau fydd yn cyfarch anghenion i'r dyfodol a'n bod yn gallu trin ein deunyddiau ailgylchu i safon. Bydd y gwaith yma yn parhau dros y misoedd nesaf.

**4.4 Teithio Llesol**

4.4.1 Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi sicrhau £1.2 miliwn o gyllid Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru eleni ar gyfer gwedd gyntaf Llwybr Ffordd Penrhos, ger Bangor. Mae gwaith paratoadol wedi ei gynnal dros y misoedd diwethaf, gyda gwaith ar y ddaear yn cychwyn o gyffordd Coed Mawr i gyffordd Coed y Maes.

4.4.2 Mae'n bwysig tanlinellu fod gwireddu cynlluniau teithio llesol yn ddibynnol iawn ar sicrhau cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Golyga hynny gydymffurfio gyda gofynion penodol wrth gyflwyno ceisiadau, ac mae swyddogion y Cyngor yn trafod gyda Thrafnidiaeth Cymru sut gellir cryfhau cynlluniau er mwyn ceisio sicrhau cyllid i'r dyfodol.

4.4.3 Y prif gynlluniau sydd dan ystyriaeth i'w datblygu a'u cyflwyno fel rhan o gais am gyllid yn y cyfnod nesaf ydi llwybrau Afonwen i Chwilog, Tywyn i Aberdyfi, ac ail wedd cynllun Ffordd Penrhos ym Mangor. Mae gwaith pellach i'w wneud ar gynlluniau posib i gysylltu Caernarfon a Bethel a Chaernarfon a Llanrug.

4.4.4 Wedi sicrhau £280,00 o gronfa Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau, mae gwaith dylunio wedi ei gwblhau ar gynllun i wella darpariaeth cerdded a beicio ger Ysgol Godre'r Berwyn yn Y Bala, a disgwylir i'r gwaith fynd allan i dendr yn fuan. Mae gwaith hefyd yn edrych ar gynlluniau Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau mewn sawl ardal arall ar hyn o bryd er mwyn gallu cyflwyno cais am gefnogaeth ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

4.4.5 Mae gwaith paratoadol wedi ei gynnal ar welliannau i Lôn Las Ogwen, gyda £1.8 miliwn wedi ei sicrhau o gronfa Ffyniant Bro. Mae dyluniadau i osod pontydd newydd ger Porth Penrhyn wedi ei wneud, gyda'r gwaith bellach wedi cychwyn ar y safle ym Mangor. Mae swyddogion hefyd yn edrych ar waith i uwchraddio Pont Sarnau ger Bethesda a sicrhau gwell cyswllt i feicwyr â llwybrau eraill yn yr ardal.

**4.5 Trafnidiaeth Gyhoeddus**

4.5.1 Mae gwaith o adolygu'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn y sir wedi ei gwblhau, ac amserlenni newydd wedi eu cyflwyno ar sail hynny yn ardal Dyffryn Nantlle a Chaernarfon. Bydd amserlenni gweddill y sir yn mynd allan i dendr yn fuan, gyda'r bwriad fod gwasanaethau newydd Meirionnydd yn cychwyn yn fuan yn 2024, a Dwyfor erbyn Ebrill.

4.5.2 Fel rhan o'r amserlenni newydd sydd eisoes yn eu lle, mae ymdrechion wedi eu gwneud i sicrhau cysylltiadau rhwng bysiau a threnau er mwyn creu posibiliadau teithio ehangach.

4.5.3 Mae'r amserlenni wedi eu teilwra i fod yn fwy cynaliadwy er mwyn ceisio cynyddu posibiliadau teithio i ardaloedd gwledig, gan geisio cynnig gwasanaethau i gyfarch anghenion mwy o gymunedau nag yn y gorffennol.

4.5.4 Mae'n braf hefyd i allu nodi fod gwasanaethau bws y Sherpa yn parhau i ennyn cydnabyddiaeth allanol. Mae'r gwasanaeth ar ei newydd wedd wedi cyrraedd rhestr fer sawl gwobr cludiant dros y misoedd diwethaf gan ennill gwobr arian 'Bysiau Hamdden' yng Ngwobrau Bysiau'r Deyrnas Gyfunol, ac yn cael ei nodi fel enghraifft o ymarfer dda gan arbenigwyr trafnidiaeth annibynnol.

4.5.5 Datblygiad cyffrous arall ydi bysiau trydan y T22, a fydd yn cynnig gwasanaeth pwysig ar hyd llwybr Blaenau Ffestiniog – Porthmadog – Caernarfon. Yn dilyn datrys rhai materion ymarferol, mae gwaith yn bwrw ymlaen a bydd pob ymdrech i sicrhau y bydd y bysiau yn weithredol mor fuan â phosib yn y flwyddyn newydd. Yn y cyfamser, mae gwasanaeth dros dro yn weithredol rhwng Porthmadog a Chaernarfon.

4.5.6 Yn dilyn cefnogaeth ddigynsail i'r maes cludiant yn ystod y pandemig, mae swyddogion y Cyngor yn parhau i gydweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru ar sail ranbarthol, er mwyn ceisio dylanwadu ar y pecyn ariannol fydd ar gael o Ebrill 2024. Mae ansicrwydd yn parhau ar hyn o bryd am lefel y cyllid fydd ar gael i gynghorau Cymru yn ei gwneud yn heriol iawn i flaengynllunio gyda hyder ar gyfer y cyfnod nesaf.

## 5. PERFFORMIAD

Rwy'n amlinellu isod y prif faterion sy'n deillio o berfformiad yr adran yn y cyfnod diweddaraf. Nid yw'r wybodaeth yn cyfeirio at bob gwasanaeth yn yr adran, gan amlygu'r rhai hynny y teimlwn fod angen tynnu eich sylw atynt.

### Gwastraff ac Ailgylchu

5.1 Ar hyn o bryd, rydym yn rhagori ar y targed cenedlaethol i ailgylchu 64% o'r gwastraff a gesglir yng Ngwynedd, ond gyda tharged yn cynyddu i 70% erbyn Mawrth 2025, mae gwaith i'w wneud er mwyn cyrraedd y ffigwr heriol yna.

5.2 Mae'r Cyngor yn didoli'r deunydd ailgylchu a gesglir, ac yn derbyn incwm am ddeunydd fel poteli plastig ac ati. Mae'n werth nodi ein bod yn gwbl ddibynnol ar y farchnad a bod y pris am ddeunyddiau yn gallu newid yn sylweddol. Mae ansawdd y deunydd hefyd yn cael effaith ond mae'n werth nodi fod ffigyrau am boteli plastig er enghraifft wedi lleihau o £400 y dunnell ar ei anterth, i £200 y dunnell fis Mai eleni ac yn £20 y dunnell yn ôl y ffigyrau diweddaraf.

5.3 Fel y cyfeiriwyd wrth adrodd am Flaenoriaeth Gwella'r maes Gwastraff ac Ailgylchu, rydym yn monitro'r nifer o ymholiadau sy'n ymwneud â methu casgliadau gwastraff a braf gallu adrodd fod tuedd cyffredinol fod y sefyllfa

yn gwella. Er hynny, mae bwriad i addasu'r mesurydd er mwyn i ni allu bod yn monitro'r gwir effaith ar drigolion a sicrhau fod y gwasanaeth yn cyfarch anghenion pobl Gwynedd.

### Gwarchod y Cyhoedd - Llygredd a Thrwyddedu

5.4 Mae'r Gwasanaeth yma yn sicrhau fod gweithgareddau trwyddedig yn ymwneud â thacsis, alcohol, gamblo ac adloniant yn cael eu darparu mewn modd sy'n gwarchod y cyhoedd a chefnogi busnes.

5.5 Mae llawer mwy o geisiadau trwyddedu cerbydau tacsi yn cael eu cyflwyno trwy system ar-lein ar wefan y Cyngor bellach. Ond gan fod y drefn yn newydd i nifer o ymgeiswyr, mae yna oedi gyda rhai ceisiadau gan fod gwybodaeth yn cael ei gyflwyno yn anghyflawn neu angen rhagor o wybodaeth.

5.6 Wrth fesur yr amser a gymerir i brosesu cais, mae swyddogion bellach yn nodi'r amser pan mae'r cais cyflawn wedi ei gyflwyno. Mae hyn yn rhoi adlewyrchiad tecach o'r amser mae'r gwasanaeth yn ei gymryd i ddelio gyda cheisiadau a oedd yn 8 diwrnod ym mis Hydref.

### Gwarchod y Cyhoedd - Bwyd a Diogelwch

5.7 Mae'r Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch yn sicrhau fod bwyd a diod sy'n cael ei werthu i'w fwyta a'i yfed yn ddiogel i'r cyhoedd ac yn cydymffurfio gyda gofynion cenedlaethol.

5.8 Mae'r ffigyrau diweddaraf yn dangos fod y mwyafrif llethol o fusnesau bwyd yng Ngwynedd yn parhau i gyrraedd safonau hylendid bwyd disgwyliedig. O'r 2,064 o fusnesau bwyd sy'n destun y drefn sgorio, roedd 99% yn cyrraedd safon hylendid bwyd boddhaol neu uwch (sgôr o 3 neu uwch), gyda 26 ddim yn cwrdd â'r safon (1%). Mae'n bwysig nodi fod y Gwasanaeth yn ail-ymweld pob eiddo sy'n derbyn sgôr o 2 neu is o fewn 3 mis o'r archwiliad gwreiddiol er mwyn sicrhau fod safonau wedi gwella.

5.9 Er hyn, mae swyddogion y Gwasanaeth yn parhau i ddelio ag ôl-groniad archwiliadau safonau bwyd am fod eu gwaith wedi newid i ganolbwyntio'n llwyr ar atal lledaeniad Covid-19 yn ystod y pandemig. Yn ogystal, mae swyddogion profiadol wedi ymddeol sydd wedi golygu bwlch yn nifer y staff cymwysedig i gynnal holl agweddau'r gwaith.

5.10 Mae'n braf adrodd fod swyddogion newydd wedi eu penodi ac yn cychwyn ar gymhwyso fel y byddant yn gallu ymgymryd â dyletswyddau diogelwch bwyd swyddogol. Bydd hynny'n cymryd amser i gwblhau, ond mae'n galonogol fod y Gwasanaeth wedi gallu penodi swyddogion i'r maes mewn cyfnod heriol o ran staffio.

### Cynllunio

5.11 Mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i recriwtio 2 o hyfforddeion newydd sydd wedi cychwyn yn eu gwaith dros y misoedd diweddar.

5.12 Dengys y ffigyrau diweddaraf am yr amser mae'n ei gymryd i benderfynu ar gais cynllunio, fod y perfformiad yn parhau i wella o'i gymharu gyda'r cyfnod blaenorol.

5.13 Mae'r perfformiad ers mis Ebrill eleni yn dangos ei fod wedi cymryd cyfartaledd o 84 diwrnod i benderfynu ar geisiadau cynllunio, o'i gymharu â 92 diwrnod yn 2022/23, a 103 diwrnod yn 2021/22.

5.14 Mae'r capasiti ychwanegol hefyd wedi bod o gymorth gyda gwaith gorfodaeth y Gwasanaeth Cynllunio. Mae swyddog profiadol wedi ei symud i ganolbwyntio ar waith gorfodaeth am gyfnod, ac er bod gwaith ymgyfarwyddo gyda'r maes mae arwyddion cynnar o welliant.

**Pridiannau Tir**

5.15 Mae tîm Pridiannau Tir yn darparu gwybodaeth chwiliadau ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno prynu eiddo neu dir o fewn Gwynedd, gyda'r bwriad o roi cymaint o wybodaeth â phosib i ddarpar brynwyr.

5.16 Fe gofiwch i mi sôn yn yr adroddiad diwethaf, fod swmp y gwaith o drosglwyddo data i system newydd genedlaethol i ymdrin â chwiliadau wedi ei gwblhau, sydd wedi galluogi rhyddhau mwy o gapasiti i'r chwiliadau ac ymateb yn amserol i ymholiadau.

5.17 Yn sgil hynny, mae'n braf gallu adrodd fod yr amser i brosesu ceisiadau pridiannau wedi sefydlogi o'i gymharu gyda'r cyfnod heriol y llynedd. Hyd yma, mae'r cyfartaledd amser prosesu ar gyfer 2023/24 yn 31 diwrnod, o'i gymharu â 38 diwrnod y llynedd.

**6. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION**

6.1 Roedd adroddiad Cyllideb Refeniw 2023/24 – Adolygiad Diwedd Awst 2023 a ystyriwyd gan y Cabinet ar 7 Tachwedd yn rhagweld y bydd yr Adran gorwario £511,000 erbyn diwedd y flwyddyn.

6.2 Mae cyfuniad o resymau am y gorwariant tebygol, yn cynnwys y tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu. Er, mae'n deg nodi fod y ffigwr a ragwelwyd ar gyfer 2023/24 yn cymharu â gorwariant o £1.4 miliwn yn 2022/23 ym maes gwastraff.

6.3 Fel sydd wedi ei adrodd, mae adolygiad cynhwysfawr wedi adnabod gwelliannau i'w gweithredu sydd o gymorth wrth ddod a'r gwariant dan reolaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn brosiect hir dymor ac ni fydd yn debyg y bydd modd dod i sefyllfa gyllidol niwtral o fewn 12 mis.

6.4 Mae targed cynlluniau arbedion yr Adran ar gyfer 2023/24 yn £319,188. Mae gwaith yn bwrw ymlaen ar y cynlluniau yma, sydd un ai wedi eu gwireddu neu ar drac i'w gwireddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Amgylchedd.

**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Berwyn Parry Jones |
| **Swyddog Perthnasol:** | Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 19 Rhagfyr, 2023 |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Priffyrdd, Peirianneg ac YGC. Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r canlynol:-

- Yr hyn sydd wedi ei gyflawni fel rhan o flaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28
- Ble mae'r mesurau perfformiad arni
- Diweddaraf ar sefyllfa ariannol a chynlluniau arbedion

**4. Prosiectau Cynllun y Cyngor 2023-28 (Blaenoriaethau Gwella)**

4.1 Mae'r tabl yn ATODIAD 1 yn rhoi diweddariad ar gynnydd tri prosiect blaenoriaeth yr Adran sydd wedi cael eu hadnabod yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-28.

4.2 O'r wybodaeth yma, fe nodwch fod yr Adran wedi gwneud cynnydd da yn erbyn prif gerrig milltir blwyddyn gyntaf y Cynllun, 2023/24. Mae llithriad wedi bod yng nghynnydd blaenoriaeth gwella 3, sef 'Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir'. Ond, rydym yn ffyddiog fod y Cynllun ar y trywydd cywir a bydd y gwaith yn cael ei gyflawni'n llawn.

## 5. Perfformiad Gwasanaethau'r Adran

O ran mesurau'r Adran, 'rwyf yn hapus gyda'r perfformiad sydd wedi ei gyflawni. Fodd bynnag, tynnaf eich sylw i'r prif faterion sydd wedi codi.

### 5.1 Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd

5.1.1 Mabwysiadwyd Llawlyfr Cynnal Priffyrdd ddechrau'r flwyddyn, ac mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar gyflwyno trefniadau o fewn eu system asedau ffyrdd (WDM) er gweithredu'r canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| 1. Sefydlu Hierarchaidd y Rhwydwaith | Rhaid oedd diwygio hierarchaidd blaenorol ffyrdd yn ôl argymhellion cod ymarfer priffyrdd 2016 | Wedi ei gwblhau |
| 2. Categorïau Diffygion | Defnyddir y wybodaeth a gofnodir yn ystod archwiliadau ffordd i bennu categorïau diffyg. Prif newid y llawlyfr yw gweld diffyg diogelwch (categori 1 yn flaenorol), yn cael ei weithredu erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf | Rhagwelir bydd hyn yn llawn weithredol cyn diwedd y flwyddyn galendr |
| 3. Dyraniad y Gyllideb | Mae'r gyllideb cynnal priffyrdd yn cael ei rannu rhwng gwaith rheolaidd a gwaith wedi ei gynllunio. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio tuag at sefydlu trefn/rhaglen waith ar sail blaenoriaeth y ffyrdd gwaethaf | Rhagwelir bydd y rhaglen yn ei lle at y flwyddyn arian 2024/2025 |

### 5.2 Gwasanaeth Edrychiad Stryd

5.2.1 Rydym bellach wedi ymgorffori'r gwasanaethau canlynol o fewn un gwasanaeth newydd, sef y Gwasanaeth Edrychiad Stryd, er mwyn gallu canolbwyntio ar edrychiad a delwedd ein strydoedd a ffyrdd:

- Glanhau Strydoedd
- Gorfodaeth Stryd
- Timau Tacluso Ardal Ni

5.2.2 Yn dilyn ailstrwythuro'r llynedd, cymerodd yr Adran y cyfle i gynnal adolygiad lefel uchel o'r Gwasanaeth er mwyn darganfod a oedd unrhyw rwystrau yn ei atal rhag gweithio'n effeithiol ac effeithlon.

5.2.3 Penodwyd Rheolwr Gwasanaeth Edrychiad Stryd a sefydlwyd Grŵp Tasg er mwyn gweithredu ar yr argymhellion/gwelliannau a oedd yn deillio o'r adolygiad.

5.2.4 Amlygodd yr adolygiad nifer o faterion i'w gwella. Fodd bynnag, barnwyd bod angen mynd i'r afael â deg prif fater. Rhoddwyd diweddariad ar y deg prif fater yma i'r Tîm Arweinyddiaeth ar y 14.11.23. Bydd diweddariad pellach yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu â'r Cabinet o fewn y pum mis nesaf.

5.2.5 Bydd yr Adran yn trefnu lansiad o'r Gwasanaeth Edrychiad Stryd newydd ar y 1af o Ebrill, 2024 drwy:

- Hysbysu holl Aelodau o'r strwythur newydd a chysylltiadau i'r Gwasanaeth
- Ymweld â chynghorau cymuned a thref er trafod holl waith y Gwasanaeth
- Mynychu Fforymau Ardal.

5.2.6 Fel bydd y cylchdeithiau glanhau ar system ddigidol, bydd manylion yn cael eu rhannu ar safle we'r Cyngor.

**5.3 Gwasanaeth Cynnal Tiroedd**

5.3.1 Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am amrywiaeth eang o leoliadau o fewn trefi a phentrefi, yn bennaf o fewn y parthau 20 a 30mya, ledled y Sir yn ystod y tymor tyfu. Cynnwys ymylon ffyrdd, mynwentydd, mannau agored, mannau chwarae, cartrefi gofal a chyfleusterau chwaraeon. Mae'r Gwasanaeth yn cydlynu agor a chau beddi mewn 12 mynwent yn ardaloedd Arfon a Meirionnydd, drwy gydol y flwyddyn.

5.3.2 Yn ogystal â hyn mae'r gwasanaeth yn ymgymryd ag amrywiaeth o waith ychwanegol yn ystod misoedd y gaeaf, megis gwaith contractio ar gyfer adrannau eraill, gwaith ffensio a choncrit, gosod meinciau, gosod biniau stryd, adnewyddu a phaentio toiledau cyhoeddus, adnewyddu a phaentio offer mannau chwarae, cynnal a chadw meinciau promenadau yn Nhywyn ac Abermaw, cynnal a chadw parciau cyhoeddus fel Parc Dre, Caernarfon.

5.3.3 Eleni, fe wnaeth y Gwasanaeth gyd-weithio gyda'r Adran Amgylchedd ar brosiect ymylon ffordd. Mae'r prosiect wedi bod yn un llwyddiannus sy'n helpu ein byd natur, yn enwedig peillwyr gan gynyddu bioamrywiaeth. Bydd erthygl yn cael ei rannu yn fewnol a gyda'r cyhoedd er mwyn hybu gwaith y prosiect hwn dros yr wythnosau nesaf.

**5.4 Gwasanaeth Fflyd**

5.4.1 Ers mabwysiadu'r Cynllun Fflyd Werdd (2023/2029), mae'r Gwasanaeth Fflyd wedi gweithredu ar gynnal trafodaethau gyda'r adrannau/gwasanaethau, er gwir adnabod maint y fflyd/gwir anghenion y gwasanaethau. Roedd hyn yn gam hanfodol i'w gario allan cyn edrych ar newidiadau i'r math o fflyd byddwn ei angen. Un o gerrig milltir y cynllun yw symud oddi-wrth defnyddio cerbydau tanwydd ffosil tuag at fflyd o gerbydau (ceir a faniau) ULEV (Ultra Low Emission Vehicles).

5.4.2 Er symud yr agenda yma ymlaen, mae'r Gwasanaeth wedi archebu 43 cerbyd trydan fydd yn ein cyrraedd cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Blaenoriaeth arall yw sefydlu pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer cerbydau'r Cyngor. Rhagwelir erbyn diwedd y flwyddyn arian, bydd gan y Cyngor 16 pwynt gwefru yn weithredol mewn pedwar lleoliad ar draws y Cyngor. Mae cryn waith eto i'w gyflawni gan hefyd edrych ar newid arferion gweithio er sicrhau defnydd gorau o fflyd y Cyngor.

5.4.3 Mae'r Gwasanaeth hefyd yn edrych ar sefydlu system bŵl gorfforaethol a bydd y tîm Technoleg Gwybodaeth yn cefnogi datblygu'r system gan edrych i gynnal treial yn fuan yn y Gwanwyn.

## 5.5 Gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng (TCC)

5.5.1 Mae camerâu teledu cylch cyfyng yn cael eu defnyddio mewn mannau cyhoeddus yng Ngwynedd i helpu gadw ein cymunedau'n ddiogel drwy helpu i atal ac ymladd trosedd, i helpu atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, i ddarparu tystiolaeth wedi'i recordio i Heddlu Gogledd Cymru, i hybu lles economaidd o fewn cymunedau ac i roi ymdeimlad o ddiogelwch i'r cyhoedd.

5.5.2 Yn ogystal, mae'r awdurdod wedi gosod camerâu sy'n gysylltiedig â'r un system mewn llawer o'i depos gwaith, i helpu gyda chyfrifoldebau iechyd a diogelwch a gweithrediad dydd i ddydd.

5.5.3 Eleni, roeddem yn llwyddiannus yn derbyn cais am arian drwy'r gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) er mwyn ymestyn ar ein darpariaeth bresennol o systemau teledu cylch cyfyng mewn mannau cyhoeddus. Rydym yn brysur yn gwneud trefniadau i ddylunio'r prif brosiectau ymhellach ym Mangor, Caernarfon a Pwllheli ac yn paratoi i gyflogi ymgynghorwyr arbenigol i gynhyrchu dogfennau tendro i ymweld â'r farchnad.

## 5.6 Gwasanaeth Toiledau Cyhoeddus

5.6.1 Mae gan y Cyngor 61 toiled cyhoeddus yng Ngwynedd sydd, o ran niferoedd, y ddarpariaeth uchaf yng Nghymru sy'n cael ei reoli gan Awdurdod Lleol. Rydym yn ymdrechu i wella cyflwr yr asedau a pharhau i gwrdd ag anghenion pobl Gwynedd er gwaethaf y ffaith fod adnoddau'r Cyngor yn prinhau.

5.6.2 Er mwyn gwireddu'r gwelliannau, cyflwynir bid am arian mewnol yn ogystal â manteisio ar gyfleoedd grantiau e.e. (eleni, roeddem yn llwyddiannus yn derbyn £135,860 drwy'r gronfa 'Pethau Pwysig' er mwyn uwchraddio 4 toiled yng Ngwynedd).

5.6.3 Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar y 05.10.23 yn amlinellu ein bwriad o gyflwyno drysau talu gyda thechnoleg di-gyffwrdd. Pe bydd ein bid arian yn llwyddiannus, gobeithiwn gyflwyno drysau o'r newydd mewn isafswm o 5 safle.

5.6.4 Yn ogystal â'r gwaith uwchraddio, mae'r Gwasanaeth yn rheoli Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus sy'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio toiledau mewn amryw o sefydliadau lleol yn yr oriau y maent ar agor. Gellir defnyddio'r toiledau yn rhad ac am ddim ac ni oes unrhyw ddisgwyliad i'r sawl sy'n eu defnyddio brynu nwyddau neu wasanaethau yn ystod y cyfnod y byddent yn yr adeilad. Disgwylir i'r sefydliadau sy'n rhan o'r Cynllun gadw eu toiledau'n ddiogel, yn lân, yn hygyrch a sicrhau bod ynddynt ddigon o stoc bwrpasol. Uchafswm y grant am flwyddyn yw £500 fesul lleoliad. Mae canllawiau'r grant ar wefan corfforaethol y Cyngor yn amlygu pwrpas y Cynllun a sut i wneud cais am y grant.

**5.7 Gwasanaeth Busnes a Chyflawni Prosiectau Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)**

5.7.1 Ers i Ymgynghoriaeth Gwynedd ymuno â'r Adran, bu cyfle i ail-edrych ar y ddwy Uned Busnes oedd yn bodoli gan ganoli gwasanaethau gweinyddol. Ers hyn, yr ydym wedi adolygu prosesau gan ddilyn egwyddorion Ffordd Gwynedd ar waith. Drwy hyn yr ydym yn ysgogi a gwella defnydd technoleg gan drosi prosesau o fod yn un papur i fod yn ddigidol. Bu cyfle hefyd i ganoli goruchwyliaeth a gweinyddiaeth systemau Technoleg Gwybodaeth craidd yr Adran. Y prif brosesau sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd yw:

- Prosesu anfonebau a thaliadau
- Pwrcasu (archebion)
- Anfonebu
- Amserlenni Staff
- Hyfforddiant

**5.8 Gwasanaeth Dŵr ac Amgylchedd Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)**

5.8.1 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ac mae'r cynllun yn cyfeirio at sut yr ydym fel Cyngor am ymateb i effeithiau newid hinsawdd, sydd yn cynnwys effeithiau llifogydd. O ganlyniad i hyn, mae'r Gwasanaeth Dŵr ac Amgylchedd yn arwain ar y gwaith o lunio Strategaeth Llifogydd Lleol sy'n cyd-redeg â'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd, ac yn helpu i wireddu targedau'r naill a'r llall.

5.8.2 Dros y misoedd diwethaf, mae'r Gwasanaeth wedi datblygu'r Strategaeth ymhellach a hynny yn gyson gyda'r fframwaith a chyfarwyddyd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen yn trafod rolau a chyfrifoldebau gwahanol awdurdodau i reoli bygythiad llifogydd; hanes llifogydd ar draws Wynedd a'r bygythiad o lifogydd ar gyfer y dyfodol o ganlyniad i effeithiau newid hinsawdd, a hefyd yr hyn mae Cyngor Gwynedd yn ei wneud o fewn eu pwerau er mwyn rheoli'r bygythiadau.

5.8.3 Yn sail i'r ddogfen dros y blynyddoedd nesaf mae 5 brif amcan, a rhestr o weithredoedd sy'n adeiladau ar ein dulliau rheoli risg llifogydd presennol er mwyn cwrdd â'r amcanion yma.

Amcanion y Strategaeth yw:

**Amcan 1:** Anelu at leihau lefel y perygl o lifogydd ac erydu arfordirol i drigolion Gwynedd.

**Amcan 2:** Datblygu dealltwriaeth bellach o'r perygl llifogydd i Wynedd ac effeithiau newid hinsawdd.

**Amcan 3:** Parhau i weithio gyda'r holl gyrff perthnasol i sicrhau datblygiad priodol a chynaliadwy yng Ngwynedd.

**Amcan 4:** Codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd ac erydu arfordirol lleol.

**Amcan 5:** Gweithio ar y cyd â'r holl Awdurdodau Rheoli Perygl eraill a grwpiau/cyrff perthnasol i sicrhau ymateb cyd-gysylltiedig i ddigwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol.

5.8.4 Y camau nesaf bydd cwblhau drafft dwyieithog cyflawn o'r ddogfen ynghyd a'r adroddiadau cysylltiedig â chynnal ymarfer ymgysylltu yn fuan yn y flwyddyn newydd. Bydd rhaglenni gwaith cyfalaf cychwynnol (mewndirol ac arfordirol) yn cael eu cynnwys fel atodiadau i'r brif ddogfen. Mae rhaglen amlinellol islaw, ond gall yr amserlen newid yn ddibynnol ar y broses ymgynghori.

5.8.5 Mae gwaith y Gwasanaeth yn hanfodol wrth amddiffyn ardaloedd yng Ngwynedd rhag effeithiau Llifogydd. Rydym yn falch o adrodd fod ein Cynllun Gwarchod Llifogydd Felinheli wedi ennill gwobr am ddefnyddio technoleg i reoli asedau yng nghystadlaethau'r NCE (New Civilis Engineer) yn Llundain ar y 24.11.23. Roedd hwn yn lwyddiant mawr i'r Gwasanaeth ac yn enghraifft wych o wneud y defnydd mwyaf o dechnoleg o fewn y maes llifogydd.

**6. Cynllun Busnes/ Achrediadau'r Adran**

6.1 **Cynllun Busnes -** Mae'r gwaith o ddiweddaru Cynllun Busnes Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) er mwyn ei ymgorffori i Gynllun yr adran gyfan (PP/YGC) yn parhau. Y bwriad yw lansio'r cynllun newydd ym mis Ebrill 2024.

6.2 **Achrediadau Buddsoddwyr Mewn Pobl (BMP) -** Yn 2022/23 bu i'r Gwasanaeth YGC dderbyn achrediad "Buddsoddwyr mewn Pobl" am y trydydd tro. Mi fydd yr adroddiad BMP â'r cynllun gweithredu yn plethu i mewn i gynllun busnes y Gwasanaeth.

6.3 **Achrediadau BSI -** Mae'r Adran wedi llwyddo i gadw'r achrediadau isod yn dilyn archwiliad rheolaeth dros y flwyddyn gan BSI:

- BSI 9001
- BSI 1401
- BSI 4501

6.4 Mae'r achrediadau yma yn hanfodol ac yn ofynnol i waith nifer o wasanaethau ar draws yr Adran.

**7. Sefyllfa Ariannol**

7.1 Yn dilyn adolygiad diweddar o sefyllfa gyllidebol yr Adran a gyflwynwyd i'r cabinet (07/11/2023) rhagwelir gorwariant o tua £990 eleni. Nodwyd fod lleihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol a hefyd pwysau ychwanegol ar gyllidebau bwrdeistrefol yn arwain at y gorwariant hwn. Mae'r Adran yn cymryd camau i leihau'r swm gorwariant a ragwelir.

7.2 Mae'r Adran wedi cyflawni mwyafrif o'i gynlluniau arbedion gwerth £215,940 ar gyfer 2023/24.

## 8. Barn Y Swyddogion Statudol

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfaoedd ariannol yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC.

**ATODIAD 1**

| Prosiectau | Trosolwg | Beth ydym am ei gyflawni yn y flwyddyn gyntaf 2023-24 (cerrig milltir) | Diweddariad Mis Rhagfyr 2023 |
|---|---|---|---|
| **1. Cymunedau Glan a Thaclus** | • Gwireddu'r hyn addawyd o fewn Cynllun y Cyngor 2018-23 sef 'gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, a'u bod fel pobl yn 'mwynhau bywyd hapus, iach a diogel' trwy 'fanteisio ar harddwch naturiol y Sir'.<br><br>• Hwyluso gwelliannau ffisegol i'r amgylchedd adeiledig oddi fewn i ac yng nghyffiniau trefi a phentrefi yng Ngwynedd, trwy ganolbwyntio ar lefydd agored cyhoeddus, e.e. ffyrdd, strydoedd, parciau, promenadau, a.y.b.<br><br>• Hybu perchnogaeth leol a datblygu ymdeimlad o falchder bro drwy weithio ar lefel traws-wasanaeth gan fagu perthnasau â grwpiau/mudiadau lleol, gwirfoddolwyr a'r trydydd sector. | Er mwyn adeiladu ar ein gwaith ymgysylltu, bwriedir cynnal sesiynau ymgynghori o fewn ein cymunedau er mwyn rhannu egwyddorion y Timau Tacluso ac i roi cyfle i aelodau lleol fynegi barn ynglŷn â'r math o waith sydd angen ei dargedu a'r ffordd orau o'i gyflawni. | Mae holiadur boddhad cwsmer wedi ei osod o fewn 'Hwb' y Timau Tacluso ac mae'r adborth yn cael ei gofnodi a'i rannu gyda'r Timau<br><br>Gan ystyried fod y Timau yn llawn weithredol ers dros i flwyddyn bellach, gobeithiwn ail-ymweld â'r ymgynghoriad 'Ardal Ni' er mwyn mesur llwyddiant y Timau |
| | | Mae cyfle wedi codi i adolygu gwasanaethau tebyg eraill o fewn yr Adran a darganfod a oes modd eu hintegreiddio yn un Gwasanaeth Edrychiad Stryd (Street Scene) er mwyn gwella glendid, taclusrwydd a diogelwch yr amgylchedd adeiledig lleol yn sylweddol. | Yn dilyn ailstrwythuro'r llynedd, cymerodd yr Adran y cyfle i gynnal adolygiad lefel uchel o'r Gwasanaeth er mwyn darganfod a oedd unrhyw rwystrau yn ei atal rhag gweithio'n effeithiol ac effeithlon. |
| | | Yn ogystal â'r Timau Tacluso Ardal Ni, mae potensial i ymgorffori'r Gwasanaeth Glanhau Strydoedd, y Gwasanaeth Cynnal Tiroedd a'r Gwasanaethau Stryd i'r gwasanaeth integredig newydd. Byddai cam o'r fath yn caniatáu i adnoddau a sgiliau gael eu rhannu, cysoni arferion gwaith presennol, creu arbedion effeithlonrwydd ac o bosibl arbed costau. Mae'r gwaith o ymchwilio i hyn eisoes | Rydym bellach wedi ymgorffori'r gwasanaethau canlynol o fewn un Gwasanaeth newydd, sef y Gwasanaeth Edrychiad Stryd, er mwyn gallu canolbwyntio ar edrychiad a delwedd ein strydoedd a ffyrdd:<br><br>• Glanhau Strydoedd<br>• Gorfodaeth Stryd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | wedi cychwyn gydag adolygiad o sut mae'r gwasanaeth glanhau strydoedd yn cyflawni eu gwaith. Bydd ymarfer tebyg yn cael ei gynnal ar y gwasanaethau eraill dros y misoedd nesaf. | • Timau Tacluso Ardal Ni<br><br>Mae'r Gwasanaeth yn wynebu sefyllfa gorwariant yn dilyn adolygiad ariannol diweddar. Yn ogystal, mae cynllun arbedion i'w gyflwyno yn y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd argymhellion o'r adolygiad yn rhan annatod o'r gwaith i ymateb i'r sefyllfa. |
| **2. Gweithredu ar Risgiau Llifogydd** | **<u>Risgiau Llifogydd Arfordirol</u>**<br><br>Mae gan Wynedd yr arfordir mwyaf yng Nghymru ac oherwydd natur ein tirwedd mae canran uchel o'n cymunedau, a'r isadeiledd sydd yn eu gwasanaethu nhw, ar yr arfordir.<br><br>Yn naturiol, mae risgiau yn codi yn sgil codiad yn lefelau môr yn ogystal â stormydd mwy dwys, sy'n digwydd mwy aml ac sy'n cael gwaeth effaith ar ein cymunedau.<br><br>Mae'r prosiect yn ceisio ymrwymo i'r drefn o flaenoriaethu risgiau llifogydd. | Cael Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Gwynedd mewn lle. Mae cyfrifoldebau am liniaru risgiau llifogydd yn rhanedig rhwng y Cyngor a Chyfoeth Naturiol Cymru. Er mwyn eglurder, y bwriad yw ffurfio strategaeth llifogydd lleol sydd yn cynnwys oll risgiau i drigolion Gwynedd. | Rydym wedi llunio a chysidro be a sut mae ein Strategaeth Llifogydd Lleol yn mynd i leihau risgiau i drigolion Gwynedd a wedi cyflwyno ein gweledigaeth i'w graffu a ger bron y Tîm Arweinyddiaeth. |
| | **<u>Risgiau Llifogydd Mewndirol</u>**<br><br>Mae newid yn ein hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar lifogydd a stormydd, chyfnodau o law sydd yn mynd yn fwy dwys ac yn digwydd mwy aml. | Creu Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol fel sydd yn ofynnol gan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae'n rhaid i'r Strategaeth fod yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol a gyhoeddwyd yn Hydref 2020. Mi ydym hefyd yn dechrau o sefyllfa o adolygu Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yng Nghymru bresennol (2013) a mynd | Mae Strategaeth ddrafft wedi ei gwblhau yn unol ac amserlen Llywodraeth Cymru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae Gwynedd wedi ei rannu yn 15 dalgylch afonol.<br><br>Mae posib blaenoriaethu'r dalgylchoedd yn ôl risg damcaniaethol o wybodaeth mapiau Cyfoeth Naturiol Cymru, gan hefyd gymryd i ystyriaeth yr wybodaeth mae'r adran yn ei gasglu ar ôl pob digwyddiad o lifogydd mewn tai yng Ngwynedd (Mae casglu'r wybodaeth yma yn rôl statudol o dan Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 - fe'i gelwir yn adroddiadau Adran 19).<br><br>Mae'r prosiect yn ceisio ymrwymo i'r drefn o flaenoriaethu risgiau llifogydd mewndirol. | ati i gyd-fynd ag amcanion, mesurau a pholisïau a deddfwriaeth gysylltiedig ar Strategaeth Genedlaethol 2020. Mae angen cwblhau'r dasg yma erbyn Hydref 2023.<br><br>Ar sail y blaenoriaethau, mae'r adran am lunio cynlluniau dalgylch, sy'n aml yn cynnwys sawl cynllun bach a mawr ar hyd a lled y dalgylch. Mae hyn yn newid sylfaenol i'r ffordd roedd cynlluniau llifogydd yn cael eu llunio yn y gorffennol gyda phrosiectau llawer mwy lleol yn cael eu datblygu. Yn aml iawn, byddai cynlluniau o'r fath yn pasio problemau a risg ymhellach i lawr y dalgylch ac yn cyfrannu at broblemau mewn lleoliadau eraill. | Byddwn yn llunio cynlluniau o fewn ein dalgylchoedd er mwyn helpu i osgoi/ ymateb i fygythiadau presennol a chynyddol i'r dyfodol. |
| **3. Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir** | Ers ail agor canolfannau wedi'r pandemig, mae gofyn ar ein darpariaeth caeau chwarae y Sir wedi cynyddu. Mae disgwyliad trigolion y Sir hefyd yn uwch ac eisiau gweld cyfarpar chwarae o radd uchel er sicrhau cyfleon chwarae cyfartal. Ers blynyddoedd lawer nid oes buddsoddiad wedi bod yn newid/ychwanegu at yr offer chwarae ac ond cyllideb refeniw fychan iawn sydd ar gael i'w cynnal. Mae sawl her yn ein wynebu er sicrhau cyfleon a chyfarpar chwarae o safon i'n cymunedau. Bydd y cynllun felly yn ein galluogi i ddatblygu'r asedau cyfredol gan sicrhau ardal ddiogel a braf i'n cymunedau ei ddefnyddio. | • Adnabod y caeau chwarae delwedd uchel<br><br>• Darparu rhaglen waith ar sail blaenoriaeth<br><br>• Trefniadau cydweithio gyda partneriaid. | •Rhestr Ased a chofnod o'r cyfarpar / statws yn ei le<br><br>•Bwriedir adolygu rhestr o wybodaeth sy'n cynnwys lleoliadau'r caeau chwarae/cyfarpar er mwyn blaenoriaethu'r gwaith fydd yn rhan o'r Prosiect hwn<br><br>•Wedi cyflwyno bid am arian drwy'r broses fewnol er mwyn gwella cyfleoedd chwarae ar draws y sir<br><br>•Bydd llythyr yn cael ei anfon i'r grwpiau cymunedol er agor trafodaeth a trafod cyfleon cyd-weithio ar unrhyw geisiadau grant sydd ar gael |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | •Nodir ei fod yn amhosib mesur defnydd y caeau chwarae ond bydd ymgysylltu yn sylfaen i'r gwaith blaenoriaethu |